# Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau

## 2025-26 (Rhif 2)

**Gorffennaf 2025**

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

# Aelodau'r Bwrdd

- Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)
- Y Fonesig Jane Roberts
- Hugh Widdis
- Yr Arglwydd Nicholas Bourne
- Jennifer Long

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

**Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

# Cynnwys

**Dehongli** ........................................ **5**

**1. Cyflwyniad ac egwyddorion cymorth ariannol** ........................................ **7**

**2. Rheolau cyflwyno ceisiadau** ........................................ **11**

**3. Tâl yr Aelodau** ........................................ **15**

**3A. Cymorth ychwanegol** ........................................ **18**

**4. Gwariant ar Lety Preswyl** ........................................ **21**

**5. Siwrneiau'r Aelodau** ........................................ **28**

**6. Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr** ........................................ **35**

**7. Cymorth staffio ar gyfer Aelodau** ........................................ **44**

**8. Cymorth i'r pleidiau gwleidyddol** ........................................ **57**

**9. Aelodau sy'n gadael eu swyddi** ........................................ **65**

**Atodiad: Penderfyniadau a fydd yn gymwys o 7 Mai 2026** ........................................ **69**

# Dehongli

Yn y Penderfyniad hwn:

Ystyr "Deddf 2006" yw **Deddf Llywodraeth Cymru 2006**.

Ystyr "y Senedd" yw Senedd Cymru.

Ystyr "Comisiwn y Senedd" yw'r Comisiwn sydd â chyfrifoldeb dros ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gynorthwyo Aelodau o'r Senedd.

Ystyr "cyswllt busnes" yw corff corfforedig, cwmni neu ymddiriedolaeth y mae'r Aelod wedi'i gysylltu ag ef neu berson sydd wedi'i gysylltu â'r Aelod drwy gorff corfforedig, cwmni neu ymddiriedolaeth. At y dibenion hyn, penderfynir a yw Aelod wedi'i gysylltu â chorff corfforedig, cwmni, ymddiriedolaeth neu berson yn unol ag adran 252 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Ystyr "ardal Caerdydd" yw unrhyw fan o fewn cylch pum milltir o gwmpas y Senedd/Tŷ Hywel ym Mae Caerdydd.

Ystyr "cronfeydd canolog" yw cyllid a ddarperir drwy'r Penderfyniad ond nad yw'n rhan o unrhyw lwfans penodol sydd ar gael i Aelodau neu Bleidiau Gwleidyddol o dan y Penderfyniad hwn.

Ystyr "y Prif Weithredwr a'r Clerc" yw Clerc y Senedd yn unol â'r diffiniad yn adran 26 o Ddeddf 2006.

Ystyr "anabledd" yw anghydraddoldeb, anfantais, diffyg grym neu wahaniaethu a allai effeithio ar bobl sydd ag amhariad oherwydd rhwystrau i fynediad neu gynhwysiant. Mae amhariadau yn cynnwys amhariadau corfforol, synhwyraidd, gwybyddol, amhariadau dysgu ac amhariadau iechyd meddwl.

Mae i "aelod o'r teulu" yr un ystyr ag a nodir yn Rheol Sefydlog 3.2, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru.

Ystyr "ardal fewnol" yw'r ardal o fewn ffiniau rhanbarthau etholaethol Gorllewin De Cymru, Canol De Cymru a Dwyrain De Cymru fel y maent yn sefyll ar ddechrau pob Senedd, ac eithrio'r etholaethau hynny sydd wedi'u lleoli yn yr ardal ryngol.

Ystyr "ardal ryngol" yw etholaethau Gŵyr, Castell-nedd, Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe, fel y maent ar ddechrau pob Senedd.

Ystyr "prif gartref" yw'r cartref y mae Aelod wedi'i gofrestru gyda thîm Cymorth Busnes i Aelodau Comisiwn y Senedd.

Ystyr "y Mesur" yw **Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010**.

Ystyr "Aelod" yw Aelod o'r Senedd.

Ystyr "dyletswyddau Aelod" yw busnes seneddol ac etholaethol neu ranbarthol a gyflawnir gan Aelod, at ddibenion ad-dalu gwariant, sy'n deillio o'i ethol yn Aelod o'r Senedd.

Ystyr "ardal allanol" yw'r ardal o fewn ffiniau rhanbarthau etholaethol Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru fel y maent yn sefyll ar ddechrau pob Senedd.

Ystyr y "Tîm Cymorth Busnes i Aelodau" yw'r tîm sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth ar bob agwedd ar y cymorth ariannol sydd ar gael i'r Aelodau i'w helpu wrth eu gwaith fel

cynrychiolwyr etholedig ar ran y Prif Weithredwr a'r Clerc yn rhinwedd ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau hefyd yn gyfrifol am roi cyngor ac arweiniad i'r Aelodau yn eu rôl fel cyflogwyr.

Ystyr "Plaid Wleidyddol" yw (i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un Blaid Wleidyddol a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn Etholiadol, neu (ii) grŵp yr ystyrir ei fod yn grŵp yn unol â Rheol Sefydlog 1.3(ii), Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, neu (iii) Aelod unigol sydd wedi rhoi gwybod i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ei fod yn aelod o Blaid Wleidyddol gofrestredig.

Ystyr "derbynneb (derbynebau)" yw tystiolaeth ddogfennol o wariant, gan gynnwys derbynneb a/neu anfoneb wreiddiol.

Ystyr "cyflog" yw'r swm gros sy'n daladwy i Aelodau neu staff cymorth cyn didynnu unrhyw beth er enghraifft treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Ystyr "llety â gwasanaeth" yw uned breswyl â rhai neu bob un o'r nodweddion a ganlyn:

(a) gwasanaethau (megis gwasanaethau cadw tŷ, golchi dillad a derbynfa) a ddarperir i westeion;
(b) cyfleusterau ymolchi, coginio a bwyta sydd ar gael ar wahân i unedau eraill;
(c) trethi a chyfleustodau sydd wedi'u cynnwys yn y pris rhentu.

Ystyr "staff" yw staff cymorth Aelodau o'r Senedd (oni nodir yn wahanol).

Ystyr "lleoliad di-dâl" yw gwirfoddolwr, intern neu leoliad profiad gwaith.

Ystyr "blwyddyn" yw'r 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

Mae i bob term arall yr un ystyr â'r termau Saesneg cyfatebol yn Neddf 2006, y Mesur neu, yn ôl y digwydd, yr un ystyr â'r termau yn **Rheolau Sefydlog** Senedd Cymru.

Mae pob cyfeiriad at Reol Sefydlog yn golygu darpariaeth yn Rheolau Sefydlog Senedd Cymru.

# 1. Cyflwyniad ac egwyddorion cymorth ariannol

## 1.1. Cyflwyniad

**1.1.1.** Mae'r Penderfyniad hwn yn cael ei wneud gan **Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd** ("y Bwrdd") o dan adran 3 o'r Mesur. Enw'r Penderfyniad hwn yw Penderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau: 2025-26.

**1.1.A2.** [Wedi'i ddileu]

**1.1.2.** Daw'r Penderfyniad hwn i rym ar 1 Awst 2025 ac mae'n disodli Penderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer 2025-26 ym mis Mawrth 2025, o ganlyniad i Benderfyniad y Bwrdd a gytunwyd ar 10 Gorffennaf 2025.

## 1.2. Egwyddorion cymorth ariannol

**1.2.1.** Mae **Cod Ymddygiad Aelodau o'r Senedd** yn cynnwys nifer o egwyddorion cyffredinol ynghylch ymddygiad personol: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd, parch ac arweinyddiaeth. Mae'r egwyddorion bras isod yn deillio o'r Cod Ymddygiad a dyma sail y rheolau ar gyfer gweinyddu taliadau o dan y Penderfyniad hwn. Rhaid i Aelodau gadw at yr egwyddorion canlynol wrth wneud cais am y lwfansau y mae ganddynt hawl i'w cael.

## 1.3. Egwyddorion

### Gwariant

**1.3.1.** Dim ond am wariant y bu'n rhaid ei ysgwyddo er mwyn i ddyletswyddau'r Aelod gael eu cyflawni y caniateir i gais gael ei wneud.

### Defnydd

**1.3.2.** Rhaid i'r ceisiadau fod yn fanwl gywir, gan adlewyrchu'r union adnoddau sydd wedi'u defnyddio ac y gwneir y cais ar eu cyfer.

### Pleidiau gwleidyddol

**1.3.3.** Rhaid peidio â gwneud cais am wariant sy'n ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol plaid.

### Ffynonellau eraill

**1.3.4.** Rhaid i'r Aelodau beidio â gwneud cais o dan y Penderfyniad hwn am unrhyw beth y mae gan Aelodau yr hawl i'w geisio o unrhyw ffynhonnell arall.

### Budd personol

**1.3.5.** Rhaid i'r Aelodau sicrhau na fydd ceisiadau'n arwain at fudd ariannol personol amhriodol, nac yn arwain at ganfyddiad o fudd ariannol personol amhriodol, uniongyrchol neu anuniongyrchol, iddynt eu hunain nac i neb arall, gan gynnwys er lles mudiad gwleidyddol.

### Bod yn agored

**1.3.6.** Rhaid i Aelodau ymrwymo i egwyddorion didwylledd a thryloywder. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol o'r System Cyhoeddi Lwfansau sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am y gwariant sy'n cael ei ysgwyddo gan yr Aelodau.

### Cyfrifoldeb personol ac atebolrwydd

**1.3.7.** Mae Aelodau'n gwbl gyfrifol am eu holl wariant, gwneud ceisiadau yn unol â'r Penderfyniad hwn, cadw cofnodion sy'n ddigonol i ategu ceisiadau o'r fath, ac am reoli eu cyllidebau a'u staff cymorth. Nid yw hyn yn atal Aelodau rhag dirprwyo'r gwaith o gyflawni'r gweithgareddau hyn i bobl eraill, ond bydd yr Aelod yn parhau'n gyfrifol amdano.

### Gwerth am arian a rhesymoldeb

**1.3.8.** Rhaid i'r Aelodau geisio sicrhau bod unrhyw wariant a ysgwyddir yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr, mai dyna'r opsiwn mwyaf cynaliadwy a rhesymol sydd ar gael, ac nad yw'n cael effaith negyddol ar enw da y Senedd neu ei Haelodau.

**1.3.9.** Wrth asesu a yw gwariant yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau, rhoddir sylw i sut mae unrhyw geisiadau tebyg a/neu ganllawiau cyfredol wedi'u trin. Asesir a yw gwariant yn rhesymol ai peidio drwy gymharu â chostau yn yr ardal leol neu o fewn Cymru fel sy'n briodol. Er enghraifft, bydd dyfarniad ynghylch y gost resymol o rentu swyddfa yn cael ei wneud yng nghyd-destun cost rhentu swyddfa leol (ac nid drwy gymharu, er enghraifft, â chost rhentu swyddfa yng nghanol Llundain).

**1.3.10.** Derbynnir nad yr opsiwn rhataf ar gyfer eitem unigol o wariant fydd yr opsiwn mwyaf costeffeithiol neu fwyaf rhesymol mewn ambell achos, o'i chymryd ar y cyd â ffactorau eraill. Er enghraifft, gallai prynu tocyn teithio cynharach a drutach olygu y gellir osgoi talu cost am aros dros nos: mae'n bosibl felly mai dyna fyddai'r opsiwn mwyaf costeffeithiol ar y cyfan.

Dogfennau

**1.3.11.** Rhaid cyflwyno derbynebau i gyd-fynd â cheisiadau, ac eithrio pan fo'r Penderfyniad hwn yn cadarnhau nad oes angen derbynebau.

## 1.3A Egwyddorion arweiniol y Bwrdd

**1.3A.1.** Swyddogaethau'r Bwrdd, fel y'u nodir yn adran 3 o'r Mesur, yw penderfynu ar lefel o gyflogau a system o gymorth ariannol i Aelodau sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau. Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb statudol i sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

**1.3A.2.** Wrth wneud ei Benderfyniad, mae'r Bwrdd yn ystyried yr egwyddorion a ganlyn:

a. dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;

b. rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;

c. rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

## 1.3B Rôl Comisiwn y Senedd

**1.3B.1.** Mae Comisiwn y Senedd yn gyfrifol am ddarparu'r arian sy'n ofynnol i dalu costau'r taliadau a'r cymorth ariannol a ganiateir o dan y Penderfyniad. Mae Comisiwn y Senedd hefyd yn darparu ystod eang o wasanaethau cymorth i Aelodau yn ychwanegol at yr hyn y darperir ar ei gyfer o dan y Penderfyniad. Yn rhinwedd ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc yn gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff cyllid ac adnoddau cyhoeddus eu defnyddio a'u gwarchod. Ar adegau, efallai bydd y Bwrdd yn gofyn am gyngor neu'n cael cyngor gan y Swyddog Cyfrifyddu ar faterion sy'n berthnasol i'w ddyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu.

**1.3B.2.** Mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc yn sicrhau bod gwariant gan Aelodau y darperir ar ei gyfer gan y Penderfyniad yn cael ei weinyddu'n briodol ac yn effeithlon gan staff Comisiwn y Senedd a bod Aelodau'n cael cyngor ar sut i wneud ceisiadau, er bod Aelodau'n parhau i fod yn gyfrifol yn bersonol am eu holl geisiadau.

**1.3B.3.** Yn unol â'r gofyniad yn adran 22(2) o Ddeddf 2006, mae Comisiwn y Senedd yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth am wariant yr eir iddo gan Aelodau ar gael i'r cyhoedd.

## 1.4. Y broses apelio

**1.4.1.** Mae unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r hawl i gael lwfans neu i wneud cais am ad-dalu costau yn unol â'r Penderfyniad hwn i'w hateb, yn y lle cyntaf, gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau, ar ran y Prif Weithredwr a'r Clerc yn rhinwedd ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu. Os yw Aelod yn anfodlon ar y penderfyniad, caiff ofyn i'r mater gael ei gyfeirio at y Prif Weithredwr a'r Clerc i'w benderfynu. Cyn penderfynu ar unrhyw gwestiwn o'r fath, caiff y Prif Weithredwr a'r Clerc ofyn i'r Bwrdd Taliadau, os yw'n angenrheidiol neu'n ddymunol gwneud hynny, am eglurhad ynghylch sut i ddehongli'r Penderfyniad. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Clerc osgoi datgelu enw'r Aelod, cyn belled ag y bo modd.

**1.4.2.** Er mwyn hybu sicrwydd a chysondeb wrth gymhwyso'r Penderfyniad hwn, rhaid i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau gadw a chyhoeddi cofnod o unrhyw gwestiwn a gyfeirir at y Prif Weithredwr a'r Clerc o dan baragraff 1.4.1, o'r penderfyniad a wnaed ac o'r rhesymau drosto. Rhaid i'r cofnod sy'n cael ei gyhoeddi hepgor, cyn belled ag y bo modd, unrhyw wybodaeth sy'n datgelu enw'r Aelod.

## 1.5. Canllawiau a pholisïau'r Bwrdd

**1.5.1.** O bryd i'w gilydd, efallai y caiff Aelodau eu cyfeirio at y canllawiau a gyhoeddir gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau neu un o wasanaethau perthnasol eraill Comisiwn y Senedd. Nid yw'r nodiadau canllaw yn effeithio ar gynnwys na dehongliad y Penderfyniad hwn; bwriad y nodiadau yw cynorthwyo Aelodau i ddeall y Penderfyniad hwn. Rhoddir blaenoriaeth bob amser i'r Penderfyniad dros unrhyw ganllawiau a gyhoeddir.

**1.5.2.** O bryd i'w gilydd, caiff y Bwrdd benderfynu cefnogi Aelodau mewn cysylltiad â chyflogi staff. Pan fydd y Bwrdd yn gwneud penderfyniad o dan y paragraff hwn, bydd y Bwrdd yn cyhoeddi hysbysiad ysgrifenedig yn cynnwys manylion am ei benderfyniad ac yn cyhoeddi'r manylion hyn ar ei wefan. Caiff y Bwrdd newid neu atal unrhyw ddarpariaeth sydd ar gael o dan y paragraff hwn ar unrhyw adeg, yn ddarostyngedig i'w ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori fel y bo'n briodol. Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi hysbysiad ysgrifenedig os bydd yn newid neu'n atal darpariaeth o dan y paragraff hwn.

# 2. Rheolau cyflwyno ceisiadau

## 2.1. Lwfansau am ran o flwyddyn

**2.1.1.** Pan fydd lwfans yn cael ei bennu drwy gyfeirio at derfyn ariannol ar gyfer blwyddyn, mae'r terfyn hwnnw'n cael ei ostwng mewn perthynas ag Aelod sy'n ymuno neu sy'n ymadael â'r Senedd ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn, ar sail pro rata. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar yr hyn y caiff Aelodau ei hawlio o fis i fis ar yr amod nad yw'r cyfanswm y byddant eisoes wedi'i hawlio yn fwy na'r terfyn ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, pan fo Aelod yn peidio â bod yn Aelod ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, gall hynny arwain at hawlio ad-daliad oddi wrth yr Aelod hwnnw (neu at osod y gordaliad yn erbyn unrhyw hawlogaethau eraill) os yw'r swm y mae'r Aelod eisoes wedi'i hawlio hyd at yr adeg y bydd yn ymadael yn fwy na'r terfyn sydd wedi'i ostwng pro-rata. Bydd dull pro-rata yn cael ei ddefnyddio hefyd os bydd terfyn ariannol lwfans yn cael ei newid yn ystod y flwyddyn ariannol.

**2.1.2.** Os bydd aelodaeth Plaid Wleidyddol yn newid ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn, bydd swm y cyllid sydd ar gael yn unol â'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ar gyfer pob plaid ac Aelod unigol yn cael ei ailgyfrifo ar sail pro-rata am weddill y flwyddyn honno.

## 2.2. Os bydd Aelod sy'n cael ei ddychwelyd yn marw neu'n cael ei atal fel arall drwy afiechyd rhag tyngu'r llw teyrngarwch neu rhag rhoi'r cadarnhad cyfatebol

**2.2.1.** Os bydd unigolyn sy'n peidio â bod yn Aelod pan fydd y Senedd yn cael ei diddymu yn cael ei ethol yn etholiad dilynol y Senedd ond yn marw cyn tyngu'r llw teyrngarwch neu roi'r cadarnhad cyfatebol sy'n ofynnol o dan adran 23 o Ddeddf 2006, neu os yw fel arall yn cael ei atal drwy afiechyd rhag gwneud hynny, mae Lwfans Dirwyn i Ben ar gael o dan y telerau a nodir ym Mhennod 9 o'r Penderfyniad hwn.

## 2.3. Rheolau cyflwyno ceisiadau

**2.3.1.** Mae'r egwyddorion sy'n sail i ad-dalu costau wedi'u nodi yn adran 1.3 o'r Penderfyniad hwn. Mae'r rheolau a ganlyn yn ategu'r egwyddorion sylfaenol hynny.

**2.3.2.** Rhaid i Aelodau sicrhau bod y ffurflen gais berthnasol yn cael ei llenwi'n gywir a'i chyflwyno i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau yn unol â'r terfynau amser ym mharagraff 2.3.8 a 2.3.9.

**2.3.3.** Yn ddarostyngedig i baragraff 2.3.3A, rhaid i eitemau a brynir sy'n costio £1,500 neu ragor, neu unrhyw rwymedigaeth gontractiol sydd â gwerth oes o £1,500 neu ragor, gael eu cyfeirio'n ysgrifenedig at y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau i'w cymeradwyo, ynghyd ag o leiaf dri dyfynbris cystadleuol ar gyfer cost eitemau o'r fath, cyn i unrhyw gost gael ei hysgwyddo neu cyn y llofnodir contract. Er enghraifft, o ran cytundeb/prydles tair blynedd ar gyfer rhentu offer swyddfa sydd â chost flynyddol o £500, rhaid ei gyfeirio i'w gymeradwyo gan mai ei werth oes yw £1,500. Caiff Aelodau ofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau mewn achosion eithriadol i ddatgymhwyso'r gofyniad i gael tri dyfynbris.

**2.3.3A.** Nid yw'r gofyniad i gael tri dyfynbris yn gymwys pan fo'r Aelod yn prynu oddi wrth gyflenwr sydd â chontract cyflenwi ar waith â Chomisiwn y Senedd, neu'n trefnu contract â chyflenwr o'r fath.

**2.3.4.** Rhaid cyflwyno derbynebau (fel y bo'n briodol) gyda'r ceisiadau. Rhaid i'r derbynebau hyn fod wedi'u cyfeirio naill ai at yr Aelod, neu at ei staff. Os digwydd fod derbynneb wedi'i chyfeirio at berson arall, rhaid cyflwyno prawf dogfennol er boddhad y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau fod y gwariant yn ymwneud â chyflawni dyletswyddau'r Aelod yn unig.

**2.3.5.** Nid yw'n ofynnol i'r Aelodau gyflwyno derbynebau ategol ynglŷn ag ad-dalu costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau am filltiroedd am ddefnyddio cerbydau preifat. Er hynny, dim ond os yw'r Aelod yn dangos ei fod wedi teithio i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau y caiff symiau o'r fath eu talu.

**2.3.6.** Rhaid cyflwyno derbynebau i ategu pob cais arall sy'n gysylltiedig â theithio. Yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 1.3.8, 1.3.9 ac 1.3.10 ac yn adran 5.2, disgwylir i'r Aelodau deithio drwy ddefnyddio'r dull mwyaf costeffeithiol. Disgwylir i'r Aelodau roi cyfiawnhad i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau dros unrhyw gais am siwrnai sydd ym marn y tîm y tu allan i'r egwyddorion hynny.

**2.3.7.** Gall methu â darparu'r dogfennau a/neu'r derbynebau angenrheidiol arwain at ohirio neu wrthod ad-daliad. Ni fydd Aelodau'n gallu hawlio ad-daliad am gostau sy'n gysylltiedig â thaliadau hwyr neu gostau sy'n deillio o ddiffyg tystiolaeth ddogfennol neu dderbynebau priodol.

**2.3.8.** Rhaid i'r ceisiadau gael eu cyflwyno o fewn tri mis ar ôl diwedd y mis y mae'r gwariant yn perthyn iddo, oni bai bod amserlen wahanol yn cael ei rhoi gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau (er enghraifft ar ddiwedd y flwyddyn ariannol) neu oni bai bod yr Aelod yn gallu rhoi cyfiawnhad rhesymol. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes angen talu'n uniongyrchol i gyflenwr, er mwyn i'r taliad gael ei wneud i'r cyflenwr yn unol â pholisi Comisiwn y Senedd. Os

cyflwynir cais yn hwyr (ar ôl tri mis), heb gyfiawnhad rhesymol, bydd hynny yn arwain at wrthod y cais. Y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau a fydd yn asesu a yw'r rhesymau dros geisiadau hwyr yn ddigonol, a gallant gyfeirio achosion lle ceir amheuaeth neu achosion lle ceir materion newydd neu ddadleuol at y Prif Weithredwr a'r Clerc i gael eu penderfynu.

**2.3.9.** Bydd yr Aelodau'n cael gwybod am unrhyw derfynau amser arbennig ar gyfer gwneud hawliadau ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol i alluogi Comisiwn y Senedd i gydymffurfio â'r gofynion ynglŷn â chwblhau ac archwilio'i gyfrifon blynyddol. Gall hyn arwain at amserlen fyrrach i wneud ceisiadau. Gall ceisiadau nad ydynt yn cael eu cyflwyno yn unol â'r amserlenni diwygiedig hyn gael eu gwrthod neu eu talu o lwfansau'r flwyddyn ariannol ganlynol, a hyn yn ôl disgresiwn absoliwt y Prif Weithredwr a'r Clerc.

**2.3.10.** Mae unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r hawl i gael lwfans i'w hateb, yn y lle cyntaf, gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Caiff Aelod, os yw'n anfodlon â'r penderfyniad, ofyn i'r mater gael ei gyfeirio am benderfyniad at y Prif Weithredwr a'r Clerc yn unol â'r weithdrefn a nodir ym mharagraff 1.4.1.

## 2.4. Treuliau eithriadol

**2.4.1.** Caiff Aelod wneud cais i'r Bwrdd ar gyfer ad-dalu unrhyw dreuliau eithriadol angenrheidiol, sydd wedi'u talu eisoes neu a fydd yn cael eu talu, sy'n gysylltiedig â chyflawni dyletswyddau Aelod, lle na fyddai'r treuliau hynny fel arall yn daladwy o dan y Penderfyniad hwn.

**2.4.1A.** [Wedi'i ddileu – gweler paragraff 4.6.]

**2.4.2.** Fel rheol, dylai'r Aelod wneud cais am ad-daliad ar gyfer unrhyw dreuliau eithriadol o dan yr adran hon yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Bwrdd. Fodd bynnag, os yw'r mater yn un brys, gall yr Aelod ofyn ar lafar; ac os nad yw'r Aelod yn gallu cysylltu â'r Cadeirydd, caiff yr Aelod ofyn i unrhyw aelod o'r Bwrdd. Rhaid cadarnhau ceisiadau llafar yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl.

**2.4.3.** P'un a yw'r cais yn ysgrifenedig neu ar lafar, rhaid i'r Aelod roi digon o wybodaeth i alluogi dod i benderfyniad priodol. Dylai'r Aelod nodi'n glir unrhyw wybodaeth y mae'n dymuno i aelod y Bwrdd ei thrin yn gyfrinachol (a all gynnwys enw'r Aelod). Os bydd yr aelod o'r Bwrdd yn ystyried na ellir cytuno i gais yr Aelod am gyfrinachedd, o ystyried y gofynion cyfreithiol, caiff yr Aelod y cyfle i dynnu'r cais yn ôl neu i gytuno bod angen datgelu rhagor o wybodaeth i aelodau eraill y Bwrdd, a'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn rhinwedd ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, i alluogi dod i benderfyniad priodol.

**2.4.4.** Nid oes modd apelio yn erbyn penderfyniad y Bwrdd ynghylch cais o dan yr adran hon.

**2.4.5.** Bydd y Bwrdd yn ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn ei rôl fel y Swyddog Cyfrifyddu, cyn cytuno ar unrhyw ad-daliad.

**2.4.6.** Caiff y Bwrdd ganiatáu trosglwyddo arian yn ychwanegol at yr hyn a ganiateir fel arfer, er mwyn talu am gostau treuliau eithriadol.

**2.4.6A.** Bydd y Bwrdd yn adolygu unrhyw dreuliau eithriadol a ad-delir i Aelodau yn flynyddol er mwyn sicrhau bod unrhyw dreuliau ychwanegol yn dal yn ofynnol a/neu eu bod yn dal yn briodol. Efallai y bydd y Bwrdd yn gofyn i Aelodau ddarparu tystiolaeth ategol i lywio ei benderfyniadau.

**2.4.7.** Yn unol â gofynion y Mesur, bydd y Bwrdd yn cyhoeddi yn ei Adroddiad Blynyddol fanylion am nifer y taliadau eithriadol a wnaed mewn unrhyw gyfnod a'r symiau a dalwyd. Ni chaiff data personol sy'n ymwneud ag Aelod eu cyhoeddi yn y cyd-destun hwn heb ganiatâd yr Aelod hwnnw. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai angen datgelu ychydig o ddata personol sy'n ymwneud ag Aelod, yng nghyd-destun treuliau eithriadol, yn ôl y gyfraith, gan gynnwys mewn ymateb i gais i'r Bwrdd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## 2.5. [Wedi'i ddileu]

# 3. Tâl yr Aelodau

## 3.1. Y swm sy'n daladwy

**3.1.1.** Mae'r tâl blynyddol sy'n daladwy i Aelodau yn cynnwys cyflog a chyfraniadau pensiwn cyflogwr.

**3.1.2.** Cyflog Aelod yw £76,380, ynghyd â chyflog deiliad swydd ychwanegol os yw Aelod yn gwneud un o'r swyddi sydd wedi'u rhestru yn Nhabl 1. Nid yw taliad Aelod yn daladwy nes y bydd wedi tyngu'r llw teyrngarwch neu roi'r cadarnhad y mae'r gyfraith yn gofyn amdano yn unol ag adran 23 o Ddeddf 2006.

**3.1.3.** Bydd Aelodau sydd hefyd yn Aelodau Seneddol yn gweld gostyngiad yn eu cyflog yn y Senedd, yn unol ag adran 21 o Ddeddf 2006, yn ôl swm sy'n hafal i ddwy ran o dair o'r cyflog sylfaenol y byddai gan yr Aelod hwnnw hawl i'w gael fel arall.

**3.1.4.** Mae gan Aelodau sy'n gwneud unrhyw un o'r swyddi ychwanegol a ganlyn hawl i gael cyflog blynyddol ychwanegol.

**Tabl 1: Cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol 2025-26**

| Cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol | Cyflog ychwanegol | Cyfanswm cyflog |
|---|---:|---:|
| Y Prif Weinidog | £90,701 | £167,081 |
| Gweinidogion Cymru[1] | £42,963 | £119,343 |
| Y Cwnsler Cyffredinol | £42,963 | £119,343 |
| Dirprwy Weinidogion[2] | £25,063 | £101,443 |
| Y Llywydd | £48,930 | £125,310 |
| Y Dirprwy Lywydd | £25,063 | £101,443 |
| Comisiynwyr y Senedd | £15,514 | £91,894 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (uwch) | £15,514 | £91,894 |

[1] Mae "un o Weinidogion Cymru" yn berson a benodir o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn y Cabinet a benodwyd ar 21 Mawrth 2024 cyfeirir at "un o Weinidogion Cymru" fel "Ysgrifennydd y Cabinet".

[2] Mae "Dirprwy Weinidog Cymru" yn berson a benodir o dan adran 50 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn y Cabinet a benodwyd ar 21 Mawrth 2024 cyfeirir at "Ddirprwy Weinidog Cymru" fel "Gweinidog"

| | | |
|---|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau (is) | £10,336 | £86,716 |
| Aelodau'r Pwyllgor Busnes | £10,336 | £86,716 |
| Arweinydd grŵp gwleidyddol nad yw yn y Llywodraeth | £15,514 + £1,194 yr Aelod hyd at £42,963 | Hyd at uchafswm o £119,343 |

**3.1.5.** Bydd gan Aelod sy'n gwneud mwy nag un o'r swyddi ychwanegol a nodir yn Nhabl 1 (gan gynnwys cyflawni swydd ychwanegol dros dro) hawl i gael cyflog deiliad swydd ychwanegol ar gyfer un yn unig o'r swyddi ychwanegol hynny, sef yr uchaf ei thâl o blith y swyddi ychwanegol hynny.

**3.1.6.** Telir cyflog deiliad swydd ychwanegol y Prif Weinidog i Aelod a ddynodir o dan adran 46(5) o Ddeddf 2006 yn ystod y cyfnod dynodi fel yr hysbysir y Senedd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 8.6.

**3.1.7.** Telir cyflog deiliad swydd ychwanegol y Cwnsler Cyffredinol i Aelod neu berson arall nad yw'n Aelod (gweler paragraff 3.3.1) a ddynodir o dan adran 49(6) o Ddeddf 2006 yn ystod y cyfnod dynodi fel yr hysbysir y Senedd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 9.9.

**3.1.8.** Bydd Aelod a etholir yn unol â Rheol Sefydlog 6.24 i weithredu fel Llywydd dros dro yn cael cyflog deiliad swydd ychwanegol y Llywydd hyd ddiwedd y cyfnod y bydd yn arfer swyddogaethau'r Llywydd.

**3.1.9.** Bydd Aelod a benodir yn unol â Rheol Sefydlog 17.22 yn Gadeirydd Pwyllgor dros dro yn cael cyflog deiliad swydd ychwanegol Cadeirydd Pwyllgor hyd ddiwedd y cyfnod y bydd yn arfer swyddogaethau'r Cadeirydd Pwyllgor, a bydd y cyflog hwnnw'n dechrau cael ei dalu un mis calendr ar ôl y dyddiad y caiff ei benodi. Ni fydd Aelod a benodir yn Gadeirydd Pwyllgor dros dro yn gymwys i gael taliad cyflog deiliad swydd ychwanegol Cadeirydd Pwyllgor os bydd y cyfnod y mae'n arfer swyddogaethau Cadeirydd Pwyllgor yn llai nag un mis calendr.

## 3.2. Mynegai blynyddol

**3.2.1.** Bydd tâl Aelodau a deiliaid swyddi yn cael ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn gan y newid yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru, rhwng mis Ebrill a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol.

**3.2.2.** [Wedi'i ddileu]

## 3.3. Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod

**3.3.1.** Mae gan Gwnsler Cyffredinol a benodir o dan adran 49 o Ddeddf 2006 ond nad yw'n Aelod hawl i gael cyflog ar yr un lefel â Chwnsler Cyffredinol sy'n Aelod, sef cyfanswm y cyflog sy'n daladwy yn unol â pharagraffau 3.1.1 i 3.1.7.

## 3.4. Talu cyflogau

**3.4.1.** Bydd cyflogau'n cael eu talu'n fisol fel ôl-daliad ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis. Bydd y taliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrif yr Aelod drwy drosglwyddiad electronig (Gwasanaethau Clirio Awtomataidd y Bancwyr - BACS).

## 3.5. Pensiynau

**3.5.1.** Bydd Aelodau yn cael eu cofrestru'n awtomatig i Gynllun Pensiwn yr Aelodau oni bai eu bod yn dewis peidio.

**3.5.2.** Caiff Aelodau a chyn-Aelodau sydd wedi cael llythyr gan Dîm Pensiynau Comisiwn y Senedd yn nodi eu hopsiynau o dan rwymedi McCloud hawlio hyd at £250 ar gyfer y gost o gael cyngor ariannol annibynnol ynghylch yr opsiynau hynny.

# 3A. Cymorth ychwanegol

## 3A.1. Diben

**3A.1.1.** Mae'r hawliadau am wariant a wneir o dan y Bennod hon at ddibenion darparu cefnogaeth ychwanegol i Aelodau anabl neu ymgysylltu ag etholwyr anabl (adran 3A.2), Aelodau â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill (adran 3A.3), ac Aelodau ar absenoldeb rhiant (adran 3A.4). Ni ddylai unrhyw Aelod o'r fath fod o dan anfantais afresymol o ganlyniad i'w anghenion neu amgylchiadau penodol.

**3A.1.2.** Rhaid i Aelod ofyn am gymeradwyaeth cyn ysgwyddo unrhyw wariant neu cyn ymrwymo i gontract (lle bo hynny'n briodol).

**3A.1.3.** Bydd yr holl ad-daliadau sy'n codi yn sgil y Bennod hon yn cael eu hariannu o'r cronfeydd canolog.

**3A.1.4.** Cyhoeddir yr hawliadau a wneir mewn perthynas â'r ad-daliadau hyn yn flynyddol ar sail ddienw, agregedig ar gyfer pob ad-daliad. Ni chaiff data personol sy'n ymwneud ag Aelod unigol eu cyhoeddi yn y cyd-destun hwn heb ganiatâd yr Aelod hwnnw. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai angen datgelu ychydig o ddata personol sy'n ymwneud ag Aelod, yng nghyd-destun y darpariaethau a amlinellir yn y Bennod hon, yn ôl y gyfraith, gan gynnwys mewn ymateb i gais i'r Bwrdd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**3A.1.5.** O ran ad-dalu unrhyw gostau a ysgwyddir oherwydd yr angen am gymorth ychwanegol mewn perthynas â chyflyrau iechyd neu amhariadau, gofalu am ddibynyddion neu absenoldeb rhiant, dylid gwneud hawliad o dan y darpariaethau perthnasol yn y Bennod hon. Mae hyn yn cynnwys cais i ad-dalu costau am weithgareddau y darperir ar eu cyfer yn gyffredinol mewn Pennod arall o'r Penderfyniad, er enghraifft costau teithio neu gostau swyddfa Aelod.

## 3A.2. Cymorth o ran anableddau

**3A.2.1.** Caiff unrhyw Aelod hawlio cymorth o dan yr adran hon am unrhyw gostau ychwanegol yr eir iddynt wrth alluogi unigolyn i gyflawni dyletswyddau'r Aelod hwnnw sy'n codi'n rhesymol o ganlyniad i amhariadau neu gyflyrau iechyd. Gallai'r treuliau hyn ymwneud ag: amhariadau neu gyflyrau iechyd Aelod; amhariadau neu gyflyrau iechyd aelod o staff; neu hwyluso ymgysylltiad ag etholwyr anabl.

**3A.2.2.** Nid oes cyfyngiad ar y swm y gellir ei hawlio o dan y ddarpariaeth hon. Caiff pob hawliad ei ystyried fesul achos. Wrth wneud penderfyniad a yw'r addasiad yn rhesymol, ystyrir a fyddai'r addasiad yn lliniaru anfantais yr unigolyn anabl a pha mor rhesymol yw cost yr addasiad i'r pwrs cyhoeddus.

**3A.2.3.** Efallai y bydd angen tystiolaeth ategol ychwanegol i gyd-fynd â hawliad, fel nodyn meddygol neu asesiad gan weithiwr iechyd proffesiynol meddygol neu alwedigaethol. Pan fydd hyn yn ofynnol, bydd yr Aelod yn cael gwybod ymlaen llaw am benderfyniad y Bwrdd ynghylch hawliad o'r fath. Caniateir gwneud hawliad am unrhyw gostau yn sgil cael y dystiolaeth ategol ychwanegol o dan y ddarpariaeth hon.

**3A.2.4.** Gall pob hawliad fod yn destun adolygiad o bryd i'w gilydd. Pe bai cais ychwanegol yn cael ei wneud am reswm newydd, byddai angen cwblhau hawliad newydd.

## 3A.3. Cymorth i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill

**3A.3.1.** Nod y cymorth yn yr adran hon yw galluogi Aelod sydd â chyfrifoldebau gofal am naill ai plentyn/plant neu oedolyn/oedolion dibynnol i barhau i gyflawni dyletswyddau Aelod. At ddibenion y Bennod hon, ystyr 'oedolyn dibynnol' yw:

a. priod, partner, rhiant neu berson arall sy'n byw yn yr un cartref â'r Aelod (heblaw am fod yn gyflogai, yn denant neu'n lletywr), neu

b. rhywun sy'n dibynnu'n rhesymol ar yr Aelod am ei ofal neu i wneud trefniadau ar gyfer ei ofal.

**3A.3.2.** Caiff Aelodau wneud hawliad i ad-dalu costau o hyd at uchafswm o £350 y mis ar gyfer gofalu am blant neu oedolion dibynnol, os bydd angen gofal ychwanegol o'r fath yn benodol i alluogi Aelod i gyflawni dyletswyddau Aelod.

**3A.3.3.** Dim ond o dan yr amgylchiadau isod y dylid gwneud hawliadau o dan y ddarpariaeth hon:

a. mewn perthynas ag unrhyw blentyn o dan 16 oed;

b. mewn perthynas ag unrhyw oedolyn dibynnol fel y'i diffinnir ym mharagraff 3A.3.1.

**3A.3.4.** Caiff Aelodau hawlio ad-daliad costau gofal a ddarperir gan ddarparwyr gofal cofrestredig. Mae'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ar gael i gynghori Aelodau o ran cymhwysedd ar gyfer y lwfans hwn.

**3A.3.5.** Dim ond am gostau a ysgwyddir yn ystod wythnosau eistedd y Senedd a thu allan i'w horiau gwaith arferol fel y nodir yn Rheol Sefydlog 11.10 (9am - 6pm ar ddiwrnodau gwaith) y gellir gwneud hawliadau am ad-dalu costau gofal.

## 3A.4. Cymorth i Aelodau ar absenoldeb rhiant

**3A.4.1.** Mae'r cymorth o dan yr adran hon ar gael i Aelodau sy'n dewis mynd ar un o'r mathau o absenoldeb rhiant. At ddibenion y Bennod hon, ystyr absenoldeb rhiant yw absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu. Yn ystod absenoldeb o'r fath, bydd yr Aelod yn aros ar ei gyflog llawn gan gynnwys unrhyw gyflog deiliad swydd ychwanegol y mae ganddo hawl iddo.

**3A.4.2.** Gellir cymryd absenoldeb mamolaeth a thadolaeth cyn genedigaeth plentyn neu i ofalu am blentyn ifanc (h.y. plentyn sy'n iau na 12 mis oed). Gellir cymryd absenoldeb mabwysiadu i ofalu am blentyn mabwysiedig o fewn y 12 mis cyntaf ar ôl ei fabwysiadu.

**3A.4.3.** Mae gan Aelodau sy'n dewis cymryd absenoldeb rhiant hawl i wneud hawliad am ad-daliad am gostau rhesymol naill ai aelod ychwanegol o staff neu adnodd ychwanegol arall yn ôl yr angen, am hyd at gyfanswm o 12 mis. Darperir adnodd o'r fath er mwyn caniatáu parhad wrth gyflawni dyletswyddau'r Aelod ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â busnes ffurfiol y Senedd y caiff yr Aelod ei hun yn unig ymgymryd ag ef e.e. mynd i'r Cyfarfod Llawn.

**3A.4.4.** Os bydd Aelod am hawlio cymorth o dan y ddarpariaeth hon yna rhaid iddo gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau sy'n nodi'r adnodd y gofynnir amdano a sut y bydd yn cael ei ddefnyddio.

**3A.4.5.** Dylid cyflwyno'r ddogfennaeth berthnasol ynghyd ag unrhyw hawliad am gymorth a wneir o dan y ddarpariaeth hon er mwyn dangos yr absenoldeb a gymerir e.e. MATB1 am absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth a Thystysgrif Paru ar gyfer absenoldeb mabwysiadu.

**3A.4.6.** Dylid gwneud unrhyw hawliad a wneir o dan y ddarpariaeth hon, lle bo hynny'n bosibl, cyn i'r Aelod gymryd ei gyfnod o absenoldeb rhiant.

**3A.4.7.** Os yw Aelod yn bwriadu gwneud hawliad yn unol â'r adran hon, rhaid i'r Aelod roi gwybod i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau am ei fwriad i gymryd absenoldeb rhiant cyn ei ddyddiad gadael h.y. dyddiad diwrnod cyntaf ei gyfnod arfaethedig o absenoldeb rhiant. Mewn achosion o absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth, ni ddylai hynny fod yn hwyrach na 23 wythnos cyn y dyddiad geni disgwyliedig. Mewn achosion o absenoldeb mabwysiadu, dylid gwneud hyn cyn gynted ag y bydd yr Aelod wedi dechrau'r broses o wneud cais i fabwysiadu a dylid rhoi diweddariadau rheolaidd ar hynt eu cais.

# 4. Gwariant ar Lety Preswyl

## 4.1. Diben

**4.1.1.** Diben taliadau o dan y Bennod hon yw digolledu'r Aelodau am gostau y mae'n rhaid iddynt eu hysgwyddo mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau Aelod, gan gynnwys aros dros nos i ffwrdd o'u prif gartrefi.

**4.1.2.** Mae adrannau 4.2, 4.3 a 4.4 o'r Bennod hon yn ymwneud â'r gost os bydd Aelod yn aros dros nos yn ardal Caerdydd mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau Aelod. Mae adran 4.2 yn berthnasol i Aelodau y mae eu prif gartrefi wedi'u lleoli yn yr ardal fewnol ond y tu allan i ardal Caerdydd. Mae adran 4.3 yn berthnasol i Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal ryngol. Mae adran 4.4 yn berthnasol i Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol.

**4.1.3.** Mewn achosion ar y ffin, caiff Aelod wneud cais i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau i'w brif gartref gael ei drin fel pe bai wedi'i leoli mewn ardal wahanol os bydd yr Aelod yn credu bod hyn yn rhesymol.

**4.1.4.** Mae adran 4.5 o'r Bennod yn gymwys i'r holl Aelodau ac mae'n ymwneud â chost aros dros nos mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau Aelod mewn mannau heblaw eu prif gartrefi neu unrhyw lety y mae ei gost yn cael ei had-dalu o dan adrannau 4.2, 4.3 neu 4.4.

**4.1.5.** Mae adran 4.6 yn ymwneud â chostau sy'n gysylltiedig â mesurau diogelwch ym mhrif gartref Aelod.

## 4.2. Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal fewnol

**4.2.A1.** Caiff Aelodau hawlio hyd at uchafswm o £702 ar gyfer gwestai neu lety â gwasanaeth yn ardal Caerdydd ym mhob blwyddyn. Mae'r uchafswm y gellir ei hawlio ar gyfer pob noson yr un fath â'r uchafswm y gellir ei hawlio o dan adran 4.5.

**4.2.A2.** Caiff Aelod sydd wedi hawlio'r uchafswm o dan baragraff 4.2.A1 wneud cais i Gomisiwn y Senedd o dan amgylchiadau eithriadol am ad-daliad ar gyfer unrhyw lety ychwanegol.

**4.2.1.** [Wedi'i ddileu]

## 4.3. Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal ryngol

**4.3.1.** Caiff Aelodau hawlio uchafswm o hyd at £8,424 ar gyfer llety dros nos yn ardal Caerdydd ym mhob blwyddyn. Mae'r uchafswm y gellir ei hawlio ar gyfer gwestai neu lety â gwasanaeth

bob nos yr un fath â'r uchafswm y gellir ei hawlio o dan adran 4.5. Fel arall, caiff Aelodau ddefnyddio'r lwfans tuag at gostau eiddo ar rent a/neu filiau yn ardal Caerdydd.

**4.3.1A.** Caiff Aelod wneud hawliad o'r swm ym mharagraff 4.3.1 mewn perthynas ag aros dros nos y tu allan i ardal Caerdydd pan fo hynny at ddiben bod yn bresennol yn y Senedd os na all yr Aelod ddod o hyd i westy neu lety â gwasanaeth yn ardal Caerdydd sydd o fewn yr uchafswm y caniateir ei hawlio fesul noson.

**4.3.1B**. Mae unrhyw hawliad o dan adran 4.5 yn ychwanegol at yr uchafswm blynyddol y gellir ei hawlio o dan yr adran hon.

**4.3.2.** O dan amgylchiadau eithriadol, gall y Prif Weithredwr a'r Clerc ganiatáu i gostau aros dros nos yn ardal Caerdydd sy'n fwy na'r swm y gellir ei hawlio o dan baragraff 4.3.1 gael eu had-dalu. Wrth ystyried hawliad o'r fath, caiff yr egwyddorion yn adran 1.3 eu hystyried a bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn y Prif Weithredwr a'r Clerc.

## 4.4. Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol

**4.4.1.** Caiff Aelodau hawlio o dan Opsiwn A, Opsiwn B, Opsiwn C neu (os yw'n gymwys) Opsiwn D, fel y'u nodir isod. Ni chaniateir i gais gael ei wneud o dan fwy nag un Opsiwn ar gyfer yr un cyfnod ond caiff Aelod hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg ei fod am newid Opsiwn a pha bryd y mae'r newid i'w wneud, y mae'n rhaid iddo beidio â bod yn llai nag un mis calendr ar ôl dyddiad yr hysbysiad.

### Opsiwn A – cost rhentu eiddo wedi'i ddodrefnu

**4.4.2.** Rhaid i'r eiddo y gwneir y cais mewn perthynas ag ef:

a. fod yn ardal Caerdydd;

b. fod wedi'i rentu drwy asiantaeth a gymeradwywyd gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau;

c. peidio â chael ei is-osod;

d. darparu llety sy'n briodol i anghenion rhesymol yr Aelod yn unig.

**4.4.3.** Dyma'r costau sydd i'w had-dalu mewn perthynas â'r eiddo:

a. rhent (gan gynnwys unrhyw ffi reoli neu rent tir sydd hefyd yn daladwy) hyd at uchafswm o £12,900 ym mhob blwyddyn (yn seiliedig ar lwfans o £1,075 y mis) mewn perthynas ag unrhyw un eiddo (ni waeth faint o Aelodau sy'n preswylio yno);

b. y dreth gyngor (yn ddarostyngedig i baragraff 4.4.4);

c. biliau cyfleustodau (sef nwy, trydan, dŵr a charthffosiaeth, ffôn);

d. band eang;

e. trwydded deledu;

f. yswiriant;

g. cost unrhyw gamau diogelwch angenrheidiol (yn ddarostyngedig i baragraff 4.4.5);

h. yn amodol ar gymeradwyo achos busnes, gall Aelodau sy'n gallu dangos bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu ar gyfer dibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda nhw yn ardal Caerdydd hawlio hyd at £1,905 yn ychwanegol y flwyddyn i dalu am gost uwch llety addas.

**4.4.4.** Os yw'r eiddo ym Mand treth gyngor G, H neu I, swm y dreth gyngor a ad-delir yw'r swm a fyddai wedi bod yn daladwy pe bai'r eiddo wedi bod ym Mand F.

**4.4.5.** Gellir gwneud hawliad at ddibenion gwella diogelwch eiddo, ar gyfer mesurau priodol sy'n deillio o argymhellion cynghorwyr diogelwch Comisiwn y Senedd, a rhaid iddo gydymffurfio â'r argymhellion hynny. Bydd costau o'r fath yn cael eu talu o'r cronfeydd canolog. Caiff unrhyw gais sydd y tu hwnt i gwmpas y mesurau hynny ei asesu fesul achos.

**4.4.5A.** Rhaid dychwelyd unrhyw ad-daliadau a dderbynnir ar ôl i gytundeb rhentu ddod i ben, er enghraifft ar gyfer blaendal tenantiaeth a ariannwyd gan y Penderfyniad hwn, i Gomisiwn y Senedd.

## Opsiwn B – costau cartref yn ardal Caerdydd a ddarperir ar draul yr Aelod ei hun

**4.4.6.** Rhaid i'r eiddo y gwneir y cais mewn perthynas ag ef:

a. fod yn ardal Caerdydd;

b. peidio â bod yn brif gartref i'r Aelod;

c. peidio â chael ei is-osod.

**4.4.7.** Mae'r costau sydd i'w had-dalu yr un fath â'r costau sydd wedi'u rhestru ym mharagraffau 4.4.3(b) i (h) (ac maent yn ddarostyngedig i baragraffau 4.4.4 a 4.4.5).

### Opsiwn C – treuliau ar gyfer llety dros nos arall

**4.4.8.** Ar ôl cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau, caniateir i'r gost am aros dros nos yn ardal Caerdydd gael ei hawlio yn lle Opsiynau A neu B. Mae'r uchafswm y caniateir ei hawlio am bob noson yr un fath â'r uchafswm y caniateir ei hawlio o dan adran 4.5, ond yr uchafswm y caniateir ei hawlio bob blwyddyn o dan yr adran hon yw £12,900.

**4.4.8A.** Caiff Aelod wneud hawliad o'r swm ym mharagraff 4.4.8 mewn perthynas ag aros dros nos y tu allan i ardal Caerdydd pan fo hynny at ddiben bod yn bresennol yn y Senedd os na all yr Aelod ddod o hyd i westy neu lety â gwasanaeth yn ardal Caerdydd sydd o fewn yr uchafswm y caniateir ei hawlio fesul noson.

### Opsiwn D – pontio

**4.4.9.** Dim ond i'r Aelodau a ganlyn y mae'r Opsiwn hwn ar gael, sef Aelodau:

a. a oedd yn Aelodau yn union cyn diddymu'r Trydydd Cynulliad;

b. nad ydynt wedi peidio â bod yn Aelodau ers hynny (heblaw oherwydd y diddymiad hwnnw, neu oherwydd diddymiad arall, yn unig);

c. nad ydynt wedi dewis gwneud cais ar unrhyw adeg o dan Opsiynau A, B neu C;

d. a oedd, yn union cyn diddymu'r Trydydd Cynulliad, naill ai'n hawlio ad-daliad rhent neu log morgais ar gartref yn ardal Caerdydd o dan adran 3.3 (Lwfans Cost Ychwanegol Lefel Uwch) o Bennod 3 o'r penderfyniad a oedd mewn grym bryd hynny;

e. sy'n parhau i fodloni'r amodau y cafodd yr hawl i gael ad-daliad o dan y Bennod honno ei seilio arnynt;

f. nad oes newid wedi bod, ers diddymiad y Trydydd Cynulliad, yn y telerau ar gyfer rhentu'r cartref neu, yn ôl fel y digwydd, yn nhelerau ad-dalu dyled y morgais. At y dibenion hyn, rhaid peidio â thrin cynnydd mewn rhent o dan adolygiad rhent cytundebol neu amrywiad mewn llog morgais yn unol â thelerau'r cytundeb morgais fel newidiadau yn y telerau hynny.

**4.4.10.** O ran Aelod y mae paragraff 4.4.9 yn gymwys iddo:

a. caiff hawlio hyd at uchafswm o £11,280 ym mhob blwyddyn mewn perthynas â'r eiddo (ni waeth faint o Aelodau sy'n preswylio yno) tuag at gyfanswm unrhyw gostau a geir o dan baragraffau (b) a/neu (c) isod;

b. caiff barhau i gael ad-daliadau rhent neu ad-daliadau llog morgais ar yr eiddo, (gan gynnwys, yn y naill achos a'r llall, unrhyw ffi reoli neu rent tir sydd hefyd yn daladwy);

c. caiff hawlio swm heb fod yn fwy na £882 i dalu costau adnewyddu hanfodol sy'n angenrheidiol i'r eiddo (er enghraifft i drwsio system wresogi) pan fo'r gwariant hwnnw wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau cyn i'r gwariant gael ei wneud;

d. caiff dderbyn ad-daliadau, hefyd, am yr un costau â'r rhai sydd wedi'u rhestru ym mharagraffau 4.4.3(b) i (g) (ac yn ddarostyngedig i baragraffau 4.4.4 a 4.4.5);

e. rhaid iddo gyflwyno datganiad, os oes llog morgais yn cael ei hawlio, o leiaf unwaith mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, o'r llogau sydd wedi'u talu, er mwyn i unrhyw addasiad yn y cyfraddau llog gael ei gyfrif;

f. os hawlir llog morgais yn ystod y Chweched Senedd, ni chaiff y swm a hawlir fod yn uwch na'r gyfradd llog fel yr amlinellwyd ar ddechrau'r Chweched Senedd, oni fydd newidiadau i gyfradd sylfaenol Banc Lloegr;

g. ni fydd yn gallu hawlio am y ddarpariaeth hon y tu hwnt i ddiddymiad y Chweched Senedd.

## 4.5. Llety dros nos arall y tu allan i ardal Caerdydd

**4.5.1.** Os bydd angen i Aelod, wrth gyflawni dyletswyddau Aelod, aros dros nos, heblaw yn ei brif gartref neu mewn llety y mae ei gostau yn ad-daladwy o dan adrannau 4.2, 4.3 neu 4.4, caniateir i gost gwneud hynny gael ei had-dalu yn unol â'r adran hon.

**4.5.2.** Ni chaiff Aelodau y mae eu prif gartrefi wedi'u lleoli yn yr ardaloedd mewnol neu ryngol ac sy'n cael hawlio cost aros o dan adran 4.2 neu 4.3 (neu a allai fod wedi gwneud hynny pe na baent eisoes wedi hawlio'r uchafswm ar gyfer aros dros nos o dan y paragraffau hynny) hawlio cost yr arhosiad hwnnw o dan yr adran hon.

**4.5.3.** Yn ddarostyngedig i baragraff 4.5.9, ni chaniateir gwneud cais o dan adran 4.5 oni bai bod yr Aelod:

a. wrth aros dros nos y tu allan i'r Deyrnas Unedig, wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau i ysgwyddo cost y llety o dan sylw. Wrth ofyn am gymeradwyaeth, rhaid i'r Aelod roi unrhyw wybodaeth i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau y mae'n rhesymol i'r tîm ofyn amdani er mwyn pwyso a mesur a ddylid rhoi cymeradwyaeth;

b. wedi cael y gymeradwyaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (a) cyn gwneud trefniadau i deithio.

**4.5.3A.** Pan fo angen llety dros nos y tu allan i'r Deyrnas Unedig ar gyfer mwy nag un Aelod yn yr un lleoliad, caiff un Aelod gyflwyno cais i'w gymeradwyo o dan baragraff 4.5.3 ar ran pob Aelod sy'n bwriadu bod yn bresennol.

**4.5.4.** Mae trefniadau ac ad-daliadau ar gyfer mathau eraill o lety dros nos mewn cysylltiad â busnes un o bwyllgorau'r Senedd yn fater i Gomisiwn y Senedd ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad hwn.

**4.5.5.** Yr uchafswm y noson y gellir ei hawlio ar gyfer gwesty neu lety â gwasanaeth (heb gynnwys brecwast a pharcio) yw:

a. £210 os yw'r llety yn Llundain;

b. £117 mewn man arall.

**4.5.5A.** Pan fydd nosweithiau olynol yn cael eu harchebu fel un trafodiad, bydd y symiau uchaf ym mharagraff 4.5.5 yn gymwys i'r gost gyfartalog fesul noson.

**4.5.6.** Dim ond â chymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau y gellir mynd y tu hwnt i hyn, a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y rhoddir cymeradwyaeth o'r fath.

**4.5.7.** Yn ychwanegol at gost y llety, caniateir i Aelod sy'n aros dros nos mewn gwesty neu mewn llety â gwasanaeth gael ad-daliad am gost pryd bwyd gyda'r nos i'r Aelod, hyd at uchafswm o £20 y noson. Ni chaiff y swm a hawlir gynnwys cost unrhyw ddiodydd alcoholig.

**4.5.8.** [Wedi'i ddileu]

**4.5.9.** Caniateir i gais a wneir heb gydymffurfio â gofynion paragraff 4.5.3 gael ei ad-dalu:

a. os nad oedd yn rhesymol ymarferol cydymffurfio â'r gofynion hynny;

b. os bydd yr Aelod yn rhoi esboniad ysgrifenedig i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau pam nad oedd yn rhesymol ymarferol cydymffurfio â'r gofynion hynny;

c. os caiff y cais ei gymeradwyo gan y Prif Weithredwr a'r Clerc.

## 4.6. Mesurau diogelwch ym mhrif gartref Aelod

**4.6.1.** Caiff Aelod hawlio am fesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer ei brif gartref y penderfynwyd bod eu hangen gan Dîm Diogelwch Comisiwn y Senedd. Gall y Tîm Diogelwch roi cyngor i'r Aelodau am yr ystod o fesurau diogelwch sydd ar gael. Mae gwybodaeth am hawliadau ar gyfer mesurau diogelwch mewn eiddo rhent a swyddfeydd etholaeth/rhanbarthol ar gael ym mharagraffau 4.4.5 a 6.5.1, yn y drefn honno.

**4.6.2.** Bydd y costau ar gyfer unrhyw gymorth o'r fath yn cael eu talu o'r cronfeydd canolog.

# 5. Siwrneiau'r Aelodau

## 5.1. Cyflwyniad

**5.1.1.** Mae'r Bennod hon yn ymdrin â thri dull o deithio gan Aelodau ar fusnes y Senedd;

a. teithio o fewn Cymru (y cyfeirir ato fel "teithio arferol");

b. teithio mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig ond y tu allan i Gymru (y cyfeirir ato fel "teithio estynedig");

c. teithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig (y cyfeirir ato fel "teithio rhyngwladol").

**5.1.2.** Mae'n ymdrin hefyd â siwrneiau gan bartneriaid, plant o dan 18 oed, a staff.

**5.1.3.** Yn ddarostyngedig i'r egwyddorion cyffredinol yn adran 5.2 a pharagraff 5.4.2, caiff Aelod deithio ar y ffyrdd, ar y rheilffyrdd, mewn awyren neu ar y môr ar gyfer siwrneiau a ganiateir ar draul y Senedd cyhyd â bod y siwrnai'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r Aelod i gyflawni dyletswyddau Aelod.

**5.1.4.** Siwrneiau a ganiateir yw'r rhai sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 5.3.1, 5.3.2, 5.11.1 a 5.15.1.

**5.1.5.** Dim ond os nad yw'n cael ei had-dalu gan ffynhonnell arall y caiff Aelod hawlio ad-daliad am unrhyw siwrnai, er y gall siwrnai benodol fod ar gyfer busnes ar ran y Senedd a sefydliadau eraill.

**5.1.6.** Er gwaethaf y cyfeiriadau at "Aelodau" yn adran 5.2 a pharagraff 5.4.2 isod, mae'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn y darpariaethau hynny yn gymwys i siwrneiau gan unrhyw staff ac mae'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn adran 5.2 yn berthnasol i siwrneiau gan bartner neu gan unrhyw blentyn (o dan 18 oed) i Aelod.

## 5.2. Egwyddorion cyffredinol

**5.2.1.** Disgwylir i'r Aelodau deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf costeffeithiol, gan gymryd i ystyriaeth union gost y siwrnai ac unrhyw gostau yn sgil aros dros nos. Er hynny, gellir ystyried hefyd yr amser a dreulir ar y siwrnai, ac os gellir profi bod manteision i siwrnai sy'n arbed amser, mae'n bosibl y bydd modd hawlio ad-daliad uwch. O ran Aelod na fydd wedi teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf costeffeithiol ym marn y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau (neu'r Prif

Weithredwr a'r Clerc os caiff hawliad o'r fath ei drosglwyddo), gellir tynnu swm priodol oddi ar ei hawliad.

**5.2.2.** Disgwylir i Aelodau chwilio am y tocyn teithio mwyaf costeffeithiol ar gyfer y siwrnai benodol, y dull teithio penodol a'r dosbarth teithio penodol, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiadau sydd ar gael. Yn ychwanegol, dylai Aelodau sydd â chardiau rheilffordd neu sy'n gallu sicrhau mathau eraill o docynnau rhatach ddefnyddio'r rheini.

**5.2.2A**. At ddibenion yr adran hon, mae teithio costeffeithiol yn golygu dull neu ddosbarth o deithio sy'n briodol i fodloni gofynion rhesymol Aelodau mewn perthynas ag unrhyw anabledd.

**5.2.3.** Dylai'r Aelodau roi sylw i System Rheoli Amgylcheddol y Senedd, sydd wedi'i hanelu at annog Aelodau, eu staff a staff Comisiwn y Senedd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, beiciau neu gludiant cymunedol i deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith ac ar fusnes.

Teithio arferol – yng Nghymru

## 5.3. Teithio arferol – egwyddorion cyffredinol

**5.3.1.** Yn ddarostyngedig i'r egwyddorion cyffredinol yn adran 5.2 a pharagraff 5.4.2, caiff Aelod wneud hawliad am gostau pan fo'n teithio i'w alluogi i gyflawni dyletswyddau Aelod drwy ddilyn unrhyw lwybr rhesymol.

**5.3.2.** Caiff Aelod wneud cais hefyd am deithio rhwng ei brif gartref, y Senedd a'i swyddfeydd etholaethol neu ranbarthol.

**5.3.3.** Ni chaiff yr Aelodau wneud cais am ad-dalu unrhyw ffioedd parcio sy'n cael eu codi gan Gomisiwn y Senedd am ddarparu cyfleusterau parcio yn Nhŷ Hywel neu yn agos ato.

## 5.4. Teithio ar y ffordd

**5.4.1.** Yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1 a 5.2.3, caiff Aelod deithio yn y modd arferol mewn car a gwneud cais am lwfans milltiroedd wedi'i seilio ar yr union filltiroedd a deithiwyd.

**5.4.2.** Cyn cychwyn ar unrhyw daith ar y ffordd yn ddarostyngedig i baragraff 5.4.1, dylai Aelodau anelu at deithio yn y ffordd fwyaf cynaliadwy a phriodol bosibl. Dylai Aelod ystyried pa mor ddichonol yw rhannu car gydag Aelod arall, aelod o'r staff neu aelod o staff Comisiwn y Senedd a/neu ddefnyddio unrhyw gynllun allanol a gymeradwywyd ar gyfer rhannu ceir y mae'r Senedd yn aelod cofrestredig ohono. Mae canllawiau llawn ar y mentrau presennol ynglŷn â rhannu ceir ar gael gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

## 5.5. Cyfraddau fesul milltir

**5.5.1.** Yn ddarostyngedig i baragraff 5.5.3, telir y cyfraddau fesul milltir a gymeradwyir gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi am deithio gan ddefnyddio car, beic modur a beic personol.

**5.5.2.** Pan fo Aelod yn rhannu siwrnai gydag Aelod arall, aelod o staff (sef aelod o'i staff ei hun neu aelod o staff Aelod arall) neu aelod o staff Comisiwn y Senedd yn ei gerbyd ei hun ar fusnes swyddogol, yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1 a 5.2.3, mae ganddo hawl i wneud cais am dâl atodol i bob teithiwr am bob milltir, yn unol â'r cyfraddau fesul milltir a gymeradwyir gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

**5.5.3.** Telir y cyfraddau fesul milltir a gynghorir gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi am deithio mewn car cwmni (neu gar yr ystyrir ei fod yn gar cwmni, er enghraifft o dan gynllun aberthu cyflog).

## 5.6. Siwrneiau dwyffordd a ganiateir

**5.6.1.** Pan fo Aelod yn defnyddio cerbyd i deithio o'i brif gartref i'r orsaf reilffordd, yr orsaf fysiau neu'r maes awyr addas agosaf a bod angen dychwelyd y cerbyd i'r prif gartref, caniateir i gost y siwrnai yn ôl gael ei hawlio. Caniateir siwrnai ddwyffordd debyg pan fo'r Aelod yn cael ei yrru i'w etholaeth neu i'w ranbarth o'i brif gartref ac yna'n teithio ymlaen i ardal Caerdydd ar drafnidiaeth gyhoeddus.

## 5.7. Teithio mewn tacsi

**5.7.1.** Yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1, 5.2.3, 5.4.2, 5.7.2 a 5.7.3, os bydd Aelod yn teithio yn y modd arferol mewn tacsi i'w alluogi i gyflawni dyletswyddau Aelod, mae ganddo hawl i wneud cais am ad-daliad nad yw'n fwy na chyfradd uchaf y lwfans milltiroedd modur a bennir ym mharagraff 5.5.1.

**5.7.2.** Os nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Aelod deithio heblaw mewn tacsi, mae ganddo hawl i wneud cais am union lefel y gost a ysgwyddwyd ganddo.

**5.7.3.** Yr uchafswm y caiff Aelod ei hawlio o dan y lwfans hwn yw union lefel y gost a ysgwyddwyd ganddo.

## 5.8. Teithio mewn car wedi'i logi

**5.8.1.** Yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1, 5.2.3 a 5.4.2, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caiff cost llogi car ei had-dalu, a hynny gyda chymeradwyaeth y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ymlaen llaw. Os gwneir siwrnai fel hyn, mae gan yr Aelod hawl i wneud cais am union lefel y gost a ysgwyddwyd ganddo.

## 5.9. Teithio ar drên

**5.9.1.** Yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1, 5.2.2 a 5.2.3, mae gan Aelodau hawl i wneud cais am union lefel y gost a ysgwyddwyd ganddynt. I ddangos cyfrifoldeb ariannol, disgwylir i'r Aelodau ddewis teithio yn y dosbarth safonol oni bai eu bod yn gallu dangos er boddhad y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau fod angen gwneud fel arall.

## 5.10. Teithio mewn awyren

**5.10.1.** Yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1 a 5.2.2, mae gan Aelod hawl i wneud cais am gost teithio mewn awyren sy'n rhan o wasanaeth rheolaidd ar gyfer siwrnai arferol. Mae gan Aelod hawl i wneud cais am gost teithio mewn awyren breifat neu awyren siarter fel rhan o'r trefniadau teithio arferol, hyd at uchafswm cost y siwrnai pe bai wedi'i gwneud mewn awyren sy'n rhan o wasanaeth rheolaidd.

Teithio estynedig – mannau eraill yn y Deyrnas Unedig

## 5.11. Teithio estynedig

**5.11.1.** Caiff Aelod deithio y tu allan i Gymru, ond o fewn y Deyrnas Unedig, i'w alluogi i gyflawni dyletswyddau Aelod. Bydd lefelau'r lwfans a'r egwyddorion cyffredinol a'r amodau y telir ceisiadau am siwrneiau arferol oddi tanynt yn gymwys i geisiadau am deithio estynedig.

Teithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig

## 5.12. [Wedi'i ddileu]

## 5.13. [Wedi'i ddileu]

## 5.14. [Wedi'i ddileu]

## 5.15. Teithio rhyngwladol

**5.15.1.** Caiff Aelod wneud cais i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau i deithio i wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

**5.15.2.** Cyn y daith, rhaid i Aelodau gyflwyno achos busnes i'w gymeradwyo gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Rhaid i'r achos busnes egluro'r rhesymeg dros ymweld â'r wlad benodol honno, am faint o nosweithiau y bydd angen aros, sut y byddai'r ymweliad yn bodloni gofynion paragraff 5.1.3 a:

a. sut y byddai o fudd i'r unigolyn yn ei rôl fel Aelod o'r Senedd ac i'r Senedd ehangach;

b. sut y byddai'n caniatáu iddynt gasglu syniadau newydd a fyddai o fudd i'r Senedd;

c. sut y byddai'n eu galluogi i hyrwyddo Cymru a gwaith y Senedd, ac i wella enw da y Senedd mewn cyd-destun rhyngwladol.

**5.15.2A.** Pan fo mwy nag un Aelod yn bwriadu mynd ar daith ryngwladol i'r un lleoliad, at yr un diben, er mwyn bodloni'r gofyniad ym mharagraff 5.15.2 caniateir i un Aelod gyflwyno un achos busnes ar ran yr holl Aelodau sy'n bwriadu teithio. Rhaid i achos busnes o'r fath gynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff 5.15.2, gan gynnwys sut y byddai'r ymweliad o fudd i bob Aelod unigol yn ei rôl fel Aelod o'r Senedd.

**5.15.3.** Yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1 a 5.2.2, mae gan Aelod hawl i wneud cais am yr union gostau teithio a ysgwyddwyd ac i gael lwfans cynhaliaeth yn ddarostyngedig i'r uchafsymiau a ganlyn:

a. cost y tocyn awyren dwyffordd, a

b. llety am bum noson, prydau bwyd a theithio achlysurol.

**5.15.4.** Caiff Aelod nad yw'n teithio yn yr awyr wneud cais am yr union gostau teithio o fewn yr uchafsymiau a nodir ym mharagraff 5.15.3.

**5.15.5.** Mater i'w benderfynu yn ôl disgresiwn y Prif Weithredwr a'r Clerc yw pa mor dderbyniol yw unrhyw geisiadau eraill ar gyfer y lwfans hwn na chytunwyd arnynt yn y modd hwn.

**5.15.6.** Rhaid i Aelodau, o fewn cyfnod rhesymol ar ôl dychwelyd, lunio adroddiad ar yr ymweliad a'i gyflwyno i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau, er mwyn iddo gael ei gyhoeddi ar wefan y Senedd.

## 5.16. Teithio ar fusnes pwyllgor

**5.16.1A**. Mae trefniadau ac ad-daliadau ar gyfer teithio ar fusnes pwyllgor yn fater i Gomisiwn y Senedd ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad hwn.

## 5.17. Adalw'r Senedd neu bwyllgor

**5.17.1.** Mae gan Aelod hawl i wneud cais am unrhyw gostau teithio a ysgwyddwyd ganddo ac y mae'n rhaid eu priodoli iddo wrth deithio i'w alluogi i fod yn bresennol mewn Cyfarfod Llawn

o'r Senedd a alwyd er mwyn ystyried mater brys sydd o bwys cyhoeddus yn unol â Rheol Sefydlog 12.3.

**5.17.2.** Mae gan Aelod hawl i wneud cais am unrhyw gostau teithio a ysgwyddwyd ganddo ac y mae'n rhaid eu priodoli iddo wrth deithio i'w alluogi i fod yn bresennol mewn cyfarfod o un o bwyllgorau'r Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 17.46.

**5.17.3.** Bydd y darpariaethau ar gyfer teithio yn adrannau 5.2 i 5.10 yn gymwys i'r achosion hyn. Yn ychwanegol, caniateir gwneud cais am union lefel y costau aros dros nos os bu'n rhaid aros dros nos wrth deithio i'r Senedd. Caiff Aelodau wneud cais hefyd am gostau teithio a ysgwyddir wrth ddychwelyd i'w gwyliau ar ôl iddynt gael eu galw'n ôl, os bydd hynny'n ymarferol.

Costau teithio partneriaid a phlant

## 5.18. Terfyn ar nifer y siwrneiau

**5.18.1.** Yn ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol adran 5.2, mae gan Aelod hawl i wneud cais am y costau a dalwyd ganddo er mwyn i'w bartner a/neu unrhyw blentyn iddo o dan 18 oed wneud siwrnai ar drafnidiaeth gyhoeddus rhwng ardal Caerdydd a'i etholaeth neu ei ranbarth, neu rhwng ardal Caerdydd a phrif gartref yr Aelod. Nid oes angen i'r Aelodau deithio gyda'u teuluoedd. Er hynny, dim ond ar gyfer 12 o siwrneiau unffordd ym mhob blwyddyn ar gyfer aelodau o'r teulu y caiff Aelodau wneud cais.

**5.18.2.** Mae siwrnai ddwyffordd yn cyfrif fel dwy siwrnai unffordd.

**5.18.3.** At ddibenion y lwfans hwn, diffinnir partner fel:

a. priod;

b. partner sifil yn unol â'r diffiniad yn Neddf Partneriaeth Sifil 2004;

c. person sy'n byw gyda'r Aelod fel priod neu bartner sifil yr Aelod.

**5.18.4.** Mae plentyn at ddibenion y lwfans hwn yn cynnwys llysblentyn, plentyn wedi'i fabwysiadu, plentyn maeth, neu unrhyw blentyn arall sy'n byw fel un o deulu'r Aelod sydd heb gyrraedd 18 oed eto.

## 5.19. Teithio mewn car

**5.19.1.** Caiff partner i Aelod a/neu unrhyw blentyn o dan 18 oed deithio mewn car yn hytrach na theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus rhwng ardal Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod, neu rhwng ardal Caerdydd a phrif gartref yr Aelod. Mewn achosion o'r fath, caiff yr

Aelod hawlio'r gyfradd briodol fesul milltir. Y cyfraddau milltiroedd sy'n gymwys i Aelodau fydd y cyfraddau a hawlir. Dylai ceisiadau o'r fath gael eu gwneud ar wahân i siwrneiau car yr Aelod ei hun. Mae unrhyw siwrnai o'r fath yn cyfrif fel un o'r cyfanswm o 12 o siwrneiau unffordd a ganiateir mewn blwyddyn. Ni chaiff partner na phlentyn wneud cais am siwrneiau os ydynt wedi teithio yn yr un car â'r Aelod.

## 5.20. Talu'n uniongyrchol i bartner neu blentyn

**5.20.1.** Caiff yr Aelod gyfarwyddo'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau i dalu unrhyw swm a hawlir o dan y lwfans hwn yn uniongyrchol i'r partner neu'r plentyn o dan sylw.

Teithiau gan staff Aelodau

## 5.21. Terfyn ar nifer y siwrneiau

**5.21.1.** Yn ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol adran 5.2 a pharagraff 5.4.2, mae gan bob Aelod hawl i wneud cais am y costau i'w aelodau staff wneud hyd at gyfanswm o 18 o siwrneiau dwyffordd ar drafnidiaeth gyhoeddus bob blwyddyn rhwng ardal Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod. At y diben hwn, ystyr "staff" yw'r rhai sy'n cael eu talu ar ran yr Aelod o'r Lwfans Gwariant Staffio, y Lwfans Cymorth Ychwanegol, y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol neu'r Lwfans Staffio Dros Dro.

## 5.22. Teithio mewn car

**5.22.1.** Yn ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol adran 5.2 a pharagraff 5.4.2, mae gan Aelod hawl i wneud cais am y gost i'r staff hynny sy'n gwneud siwrneiau mewn car rhwng Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod. Caiff Aelod wneud cais am y gost i'r staff hynny sy'n gwneud siwrnai mewn car rhwng Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod yn ôl y cyfraddau milltiroedd a gymeradwywyd gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Mae unrhyw siwrnai o'r fath yn cyfrif yn erbyn y cyfanswm o 18 o siwrneiau dwyffordd a ganiateir bob blwyddyn.

## 5.23. Talu'n uniongyrchol i staff

**5.23.1.** Caiff yr Aelod gyfarwyddo'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau i dalu unrhyw swm a hawlir o dan y lwfans hwn yn uniongyrchol i'r aelod staff o dan sylw.

# 6. Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr

## 6A.1. Swyddfeydd – egwyddorion

**6A.1.1.** Mae gan yr Aelodau hawl i wneud cais am ad-daliad ar gyfer unrhyw gostau rhesymol sy’n ymwneud â rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr, sef y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Rhaid cyflwyno anfonebau neu dystiolaeth o wariant gyda phob cais.

**6A.1.2.** Rhaid i Aelodau sydd am gaffael swyddfa sicrhau bod yr adeilad yn addas ar gyfer eu hanghenion.

**6A.1.3.** Dylai pob swyddfa a ariennir drwy'r Penderfyniad hwn ddilyn yr egwyddorion hyn:

- enw da’r Senedd: dylai pob swyddfa adlewyrchu statws a phwysigrwydd y Senedd fel sefydliad cenedlaethol a bod yn ymwybodol mai'r swyddfa yw wyneb lleol y Senedd;
- diogelwch: dylai pob swyddfa fod yn ddiogel, yn weladwy ac yn hawdd i'r cyhoedd ei chyrraedd;
- hygyrch: dylai swyddfeydd fod yn fannau hygyrch i bawb y mae angen iddynt eu defnyddio;
- agored a chroesawgar: dylai pob swyddfa gael ei staffio gan staff cyflogedig.

**6A.1.4.** Rhaid i Aelod roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddir gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ar sut i gaffael swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol os bydd y swyddfa dan sylw yn cael ei hariannu o'r Penderfyniad hwn.

**6A.1.5.** Mae'r Aelodau'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl brydlesi, contractau a dogfennau perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â'r lwfans hwn yn cydymffurfio â chyfraith Cymru a Lloegr ac yn cydymffurfio ag egwyddorion cymorth ariannol a nodwyd ym Mhennod 1. Rhaid i Aelodau ddarparu copïau o ddogfennau o'r fath i’r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Dim ond at ddibenion cofnodi gwybodaeth y mae’r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau'n cadw'r ddogfennaeth hon.

## 6.1. Diben a swm

**6.1.1.** Nid oes gan Aelodau hawl i gael ad-daliad gan y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr o ran unrhyw gostau sy'n codi o ddefnyddio eu cartref fel swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol.

**6.1.2.** Yn ddarostyngedig i baragraff 6.1.1, caiff Aelod wneud cais am swm o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr nad yw'n fwy na'r canlynol yn y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2024.

a. £27,430 os oes gan yr Aelod swyddfa yn etholaeth neu ranbarth yr Aelod, neu

b. £11,205 os yw'r Aelod yn cyflawni dyletswyddau etholiadol neu ranbarthol o'r cyfleusterau swyddfa yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd, yn unig.

**6.1.2A.** [Wedi'i ddileu]

**6.1.3.** Ni chaiff Aelod wneud cais am ad-daliad o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas â chostau swyddfa, neu ran o swyddfa, sy'n cael ei phrydlesu neu ei rhentu oddi wrth aelod o'r teulu neu gydweithiwr busnes.

**6.1.4.** Ni chaiff Aelod sy'n rhentu neu'n prydlesu swyddfa neu ran o swyddfa oddi wrth sefydliad (gan gynnwys ymddiriedolaeth) y mae gan yr Aelod (neu aelod o'i deulu neu gydweithiwr busnes i'r Aelod) fuddiant ariannol ynddo wneud cais am ad-daliad o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas â'r rhent neu'r brydles ar y swyddfa neu'r rhan o'r swyddfa honno oni bai bod y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau wedi cytuno ar y cynnig cyn i'r cytundeb gael ei wneud.

**6.1.5.** Caniateir i gymeradwyaeth gael ei rhoi o dan baragraff 6.1.4 os oes gan yr Aelod, yr aelod o'i deulu neu'r cydweithiwr busnes naill ai ddaliad bach iawn mewn cwmni rhestredig neu os yw'n fuddiolwr mewn cronfa bensiwn o bwys. Caiff maint daliad neu gronfa bensiwn ei bennu yn ôl disgresiwn y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Os bydd Aelod yn anfodlon â'r penderfyniad a wneir gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau, caiff ofyn i'r mater gael ei gyfeirio am benderfyniad at y Prif Weithredwr a'r Clerc yn unol â'r weithdrefn a nodir ym mharagraff 1.4.1.

## 6.2. Costau swyddfa

**6.2.1.** Gall Aelodau wneud cais am ad-daliad o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr am gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â chynnal swyddfa ac ymgysylltu â'u hetholwyr. Rhaid i unrhyw gostau a hawlir o'r Gronfa hon ystyried yr egwyddor ar weithgarwch gwleidyddol

plaid a amlinellir ym Mhennod 1. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylid gofyn i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau am gyngor ar wneud hawliadau o'r gronfa hon.

**6.2.2.** Rhaid i bob eitem unigol o offer swyddfa sy'n costio £100 neu fwy gael ei chofnodi ar restr a gedwir gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Mae pob eitem y telir amdani gan ddefnyddio adnoddau Comisiwn y Senedd yn cael ei darparu i gynorthwyo Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau Aelod ond bydd pob eitem o'r fath yn parhau i fod yn eiddo i'r Comisiwn a dylid ei dychwelyd i'r Comisiwn pan na fydd ei hangen mwyach. Bydd gwerth unrhyw eitemau na ddychwelwyd yn cael ei wrthbwyso yn erbyn unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r Aelod o dan y Penderfyniad hwn.

**6.2.3.** [Wedi'i ddileu].

**6.2.4.** Ni chaniateir hawlio costau ad-dalu morgais, gan gynnwys llog morgais, o'r Gronfa hon.

**6.2.5.** Rhaid i dderbynebau am rent swyddfa gynnwys cyfeiriad yr eiddo sy'n cael ei rentu.

**6.2.6.** Dim ond os bydd costau galwadau ffôn symudol yn ymwneud â chyflawni dyletswyddau Aelod yn unig y mae gan Aelod hawl i wneud cais am ad-daliad o'r costau hynny. Rhaid peidio â gwneud cais am ad-daliad o gost galwadau personol.

## 6.3. Lwfans cychwyn swyddfa

**6.3.1.** Mae gan Aelodau sydd am sefydlu swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol am y tro cyntaf hawl i wneud archeb untro ar gyfer dodrefn swyddfa er mwyn darparu'r offer i'r swyddfa honno. Caiff Aelodau hefyd ddefnyddio'r lwfans i helpu i baratoi at agor swyddfa. Gall hyn gynnwys mân newidiadau i'r cynllun neu ailaddurno, ar yr amod bod y costau'n rhesymol ac yn bodloni'r egwyddorion o ran cymorth ariannol a nodir ym Mhennod 1. Mae lwfansau eraill ar gael at ddiben gwella hygyrchedd (gweler adran 3A.2) a diogelwch y swyddfa (gweler adran 6.5).

**6.3.2.** Mae'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ar gael i roi cyngor ar ddewis dodrefn a materion eraill ynglŷn â sefydlu swyddfa am y tro cyntaf. Rhaid i Aelodau cymwys gyflwyno cais ysgrifenedig i'w gymeradwyo gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau am yr eitemau y maent yn dymuno eu harchebu neu gostau cysylltiedig eraill. Telir y costau a gymeradwyir o'r cronfeydd canolog (ac nid o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr), yn amodol ar uchafswm cost o £5,000.

**6.3.3.** Yn ddarostyngedig i baragraff 6.4.4 isod, rhaid gwneud cais am ad-daliad yn erbyn y ddarpariaeth hon erbyn diwedd y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y cafodd yr

Aelod ei ethol, naill ai mewn etholiad neu drwy is-etholiad. Nid yw'r ddarpariaeth hon ar gael ar gyfer adleoli swyddfa sydd eisoes yn bodoli na sefydlu swyddfa ychwanegol.

**6.3.4.** Mae hawl gan Aelodau sy'n dechrau ar eu trydedd Senedd (neu fwy) yn olynol i adnewyddu rhywfaint o'u hoffer swyddfa. Caiff Aelodau hawlio o dan y lwfans hwn ym mlwyddyn gyntaf eu trydydd tymor (neu ar ôl hynny) a phob trydydd tymor (neu ar ôl hynny) yn olynol ar ôl i lwfans o dan y paragraff hwn gael ei dalu. Rhaid i'r Aelodau gyflwyno cais ysgrifenedig am yr eitemau y maent yn dymuno eu prynu i'w gymeradwyo gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Telir am yr eitemau a gymeradwyir o'r cronfeydd canolog (ac nid o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr), yn amodol ar uchafswm cost o £1,000.

## 6.4. Offer a deunyddiau swyddfa

**6.4.1.** [Wedi'i ddileu].

**6.4.2.** [Wedi'i ddileu].

**6.4.3.** Rhaid i'r Aelodau roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau mewn perthynas â phrynu offer swyddfa a deunyddiau ysgrifennu eraill, gan gynnwys canllawiau ar ddefnyddio cyflenwyr a gymeradwywyd.

**6.4.4.** Pan fo canllawiau o'r fath yn rhestru cyflenwr neu gyflenwyr a gymeradwywyd ar gyfer categori penodol o offer neu ddeunyddiau ysgrifennu swyddfa, mae'n rhaid i'r Aelodau ddarparu tystiolaeth o werth am arian a gofyn am gymeradwyaeth y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau er mwyn prynu eitemau, yn y categorïau hyn, oddi wrth gyflenwyr sydd heb eu cymeradwyo.

**6.4.5.** Rhaid i Aelodau sy'n dymuno prynu offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ychwanegol ar gyfer eu swyddfa gyflwyno cais ysgrifenedig ar gyfer yr eitemau i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau cyn eu prynu. Er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gydnaws â systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a mesurau seiberddiogelwch y Senedd, argymhellir yn gryf y dylid prynu'r eitemau hyn o offer drwy Gomisiwn y Senedd. Caiff y costau eu talu o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

## 6.5. Diogelwch swyddfa

**6.5.1.** Caiff yr Aelodau wneud cais am ad-daliad ar gyfer costau a ysgwyddwyd at ddibenion gwella diogelwch yn eu swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol, pan fydd y mesurau dan sylw wedi'u hargymell gan gynghorwyr diogelwch Comisiwn y Senedd. Bydd costau o'r fath yn cael eu talu o'r cronfeydd canolog. Caiff unrhyw gais sydd y tu hwnt i gwmpas y mesurau hynny ei asesu fesul achos.

## 6.6. Iechyd a diogelwch

**6.6.1.** Mae swm ychwanegol ar gael i ariannu unrhyw wariant gan Aelod o fwy na £500 mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar gyfer mesurau iechyd a diogelwch pan fydd y mesurau hynny wedi'u hargymell gan berson priodol sydd wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr a'r Clerc. Rhaid i argymhellion o'r fath fod yn ysgrifenedig.

**6.6.1A.** Caiff yr Aelodau hefyd hawlio o dan baragraff 6.6.1 am gost asesiadau DSE i'w hunain a'u staff cymorth, ac am brynu offer y mae asesiad o'r fath wedi nodi bod eu hangen er mwyn hwyluso gweithio gartref yn ddiogel. Nid oes angen i fesur a nodir gan asesiad DSE gael ei argymell ar wahân gan berson priodol a gymeradwyir gan y Prif Weithredwr a'r Clerc.

**6.6.2.** Ym mhob blwyddyn ariannol, bydd y £500 (cronnol) cyntaf y mae Aelod yn ei hawlio o dan baragraff 6.6.1 yn cael ei ariannu o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.  Caiff unrhyw hawliadau pellach eu hariannu o'r cronfeydd canolog.

**6.6.2A.** Gellir hawlio mesurau iechyd a diogelwch cysylltiedig ag anabledd o dan Bennod 3A (Cymorth Ychwanegol).

## 6.6A Band eang

**6.6A.1.** Caiff Aelod wneud cais am ad-daliad ar gyfer costau band eang yn ei brif gartref. Dim ond i hawliadau am gostau ychwanegol y tu hwnt i'r gost arferol o fyw yn y cartref y mae'r adran hon yn gymwys. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, costau ail linell band eang yn y cartref i'w defnyddio at ddibenion gwaith y Senedd yn unig, neu gostau uwchraddio gwasanaeth sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau gwell cysylltiad at ddibenion gwaith y Senedd.

**6.6A.2.** Bydd costau o'r fath yn cael eu had-dalu o'r cronfeydd canolog.

## 6.7. Prydlesu, is-osod a rhannu

**6.7.1.** Ni chaiff Aelod sy'n rhentu swyddfa yn ei etholaeth neu ei ranbarth hawlio ad-daliad ar gyfer rhent y swyddfa honno oni bai:

a. bod yr Aelod, cyn ymrwymo i gytundeb i rentu'r swyddfa, wedi hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau am y cynnig;

b. bod prisiwr cymwysedig wedi rhoi gwybod i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau bod y rhent arfaethedig yn rhesymol;

c. bod cyngor cyfreithiol wedi'i ddarparu ar addasrwydd prydles y swyddfa cyn cytuno i'r brydles;

d. bod copi o'r cytundeb rhent sydd wedi'i weithredu wedi cael ei roi i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

**6.7.2.** Ni chaniateir i Aelod sy'n rhentu swyddfa (neu ran o swyddfa) oddi wrth sefydliad sy'n gysylltiedig â Phlaid Wleidyddol neu undeb llafur wneud cais i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas â rhent y swyddfa honno oni bai:

a. bod yr Aelod, cyn ymrwymo i gytundeb i rentu'r swyddfa, wedi hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau am y cynnig;

b. bod prisiwr cymwysedig wedi rhoi gwybod i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau bod y rhent arfaethedig yn rhesymol;

c. bod copi o'r cytundeb sydd wedi'i weithredu wedi cael ei roi i Tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

**6.7.3.** Ni chaiff Aelod sy'n rhentu rhan o swyddfa i sefydliad sy'n gysylltiedig â Phlaid Wleidyddol neu undeb llafur (neu i unrhyw sefydliad neu fusnes arall) wneud cais am ad-daliad ar gyfer y swyddfa honno oni bai:

a. bod yr Aelod, cyn gwneud y cytundeb i rentu'r rhan honno o'r swyddfa, wedi hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau am y cynnig;

b. bod prisiwr cymwysedig wedi rhoi gwybod i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau bod y rhent arfaethedig yn rhesymol;

c. bod copi o'r cytundeb sydd wedi'i weithredu wedi cael ei roi i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

**6.7.4.** Os bydd prisiwr wedi rhoi cyngor am rent:

a. o dan baragraff 6.7.1(b), ni chaiff Aelod wneud cais i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas ag unrhyw gynnydd yn y rhent oni bai bod y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau wedi cael ei hysbysu am y cynnydd a bod y Tîm yn fodlon na fydd y cynnydd yn golygu bod y rhent yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol.

b. o dan baragraff 6.7.2(b), ni chaiff Aelod ostwng y rhent hwnnw, a pharhau i hawlio'r Lwfans Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas â'r swyddfa, oni bai bod y gostyngiad arfaethedig wedi'i hysbysu i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau a bod y Tîm yn fodlon na fydd y gostyngiad yn golygu bod y rhent yn llai na'r hyn sy'n rhesymol.

**6.7.5.** I'w alluogi i ystyried cynnydd neu ostyngiad a hysbysir iddo o dan baragraffau 6.7.4(a) neu 6.7.4(b), caiff y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ei gwneud yn ofynnol iddo gael copi o gyngor y prisiwr a hysbysir ganddo.

**6.7.6.** Gellir hawlio'r gost o gael cyngor prisiwr neu gyngor cyfreithiol at ddibenion paragraffau 6.7.1(b), 6.7.1(c), 6.7.2(b) neu 6.7.3(b) o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

**6.7.7.** Ni chaiff Aelod sy'n bwriadu gwneud trefniant i rannu swyddfa gydag Aelod Seneddol wneud cais am ad-daliad mewn perthynas â rhent y swyddfa honno oni bai:

a. bod yr Aelod, cyn gwneud y trefniant i rannu'r swyddfa, wedi hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau am y cynnig;

b. bod cytundeb drafft, yn nodi telerau'r trefniant arfaethedig, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â dull rhannu costau'r swyddfa, wedi'i adneuo gyda'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau;

c. bod y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau wedi cymeradwyo'r trefniant arfaethedig.

**6.7.8.** Rhaid i unrhyw amrywiad arfaethedig i drefniant o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 6.7.7 gael ei hysbysu i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Ni chaniateir i unrhyw amrywiad arfaethedig o'r fath gael ei roi ar waith gan Aelod sy'n hawlio o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas â'r swyddfa, heb i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau roi cymeradwyaeth ymlaen llaw.

**6.7.9.** Mae gan Aelod sy'n gwneud cais o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas â rhent swyddfa:

a. sy'n cael ei rhannu ag Aelod Seneddol; neu

b. y mae rhan ohoni'n cael ei rhentu i berson arall;

hawl i wneud cais i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas â rhent net y swyddfa yn unig, hynny yw, y gwahaniaeth rhwng y swm sy'n cael ei dalu gan yr Aelod ar ffurf rhent y swyddfa a'r swm y mae'r Aelod yn ei gael fel cyfraniad at y rhent neu fel rhent ar gyfer rhan o'r swyddfa, yn ôl fel y digwydd.

**6.7.10.** Rhaid i Aelod sy'n rhentu rhan o swyddfa (yr hawlir arian o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas â hi) i sefydliad sy'n gysylltiedig â Phlaid Wleidyddol sicrhau na fydd yr un rhan arall o'r swyddfa'n cael ei defnyddio at ddibenion Plaid Wleidyddol, gan gynnwys dibenion etholiadol.

## 6.7A Costau polisi, ymchwil a chyfathrebu

**6.7A.1.** Caiff Aelod hawlio arian o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ar gyfer y gost o gael cyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol, am gyfnod penodol, i gyflawni darn penodol o waith polisi, ymchwil a chyfathrebu.

**6.7A.2.** Gellir defnyddio'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ar gyfer ymchwil i:

a. datblygu polisi;

b. archwilio materion sydd o bwys i etholwyr;

c. craffu ar bolisi, deddfwriaeth neu gyllid.

**6.7A.3.** Caiff Aelodau hefyd ddefnyddio'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i gaffael darnau o waith allanol i greu cynnwys ar gyfer ymgysylltu â'u hetholwyr. Mae enghreifftiau o'r gwaith y gellir ei gyflawni yn cynnwys:

a. datblygu adnoddau sy'n creu cysylltiadau rhwng cyfrifoldebau'r Senedd, materion lleol a gweithgarwch yr Aelod;

b. helpu i ddatblygu Adroddiad Blynyddol a gynhyrchir yn broffesiynol;

c. cynhyrchu cylchlythyrau rheolaidd.

**6.7A.4.** Caiff Aelodau gomisiynu gwaith o'r fath ar y cyd ag Aelodau eraill a rhannu'r costau.

**6.7A.5.** Gall Aelodau hefyd drosglwyddo arian i'r Blaid Wleidyddol y maent yn perthyn iddi at ddibenion comisiynu ymchwil polisi yn unig (yn unol â'r adran 6.7A hon). Rhaid defnyddio'r arian a drosglwyddwyd yn unol â'r amodau a nodir yn adran 8.7A.

## 6.8. Trosglwyddo arian

**6.8.1.** Caiff Aelodau drosglwyddo hyd at 25 y cant o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i'w Lwfans Staffio os bydd cronfeydd dros ben ar gael. Caiff Aelodau drosglwyddo hyd at yr un faint o'u Lwfans Gwariant Staffio i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr os bydd cronfeydd dros ben ar gael.

**6.8.2.** Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff Aelodau dynnu arian o Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr y flwyddyn ddilynol ar yr amod y cytunir ymlaen llaw â'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Bydd unrhyw arian o'r fath yn cael ei dynnu o'u cyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

**6.8.3.** Yr uchafswm y gellir ei dynnu o dan baragraff 6.8.2 yw 25 y cant o lwfans y flwyddyn ddilynol. Fodd bynnag, ni all Aelodau ddwyn cronfeydd ymlaen i flwyddyn ariannol yn y dyfodol, h.y. ceisio ychwanegu cronfeydd heb eu defnyddio o flwyddyn ariannol flaenorol i flwyddyn ariannol newydd.

**6.8.4.** Ni chaniateir trosglwyddo, yn unol â pharagraff 6.8.2, yn y cyfnod o 12 mis cyn etholiad cyffredinol cyffredin.

# 7. Cymorth staffio ar gyfer Aelodau

## 7.1. Lwfans Gwariant Staffio

**7.1.A1**. Mae pob Aelod yn gyflogwr. Rôl y Bwrdd yw darparu lwfans staffio i bob Aelod yn ogystal â phennu'r fframwaith cyflogaeth drwy ddarparu graddfeydd cyflog a chontractau safonedig.

**7.1.1.** Mae hawl gan Aelod i hawlio costau gwariant staffio, hyd at uchafswm o £138,438 ar gyfer personau a gyflogir ganddo os yw'r costau hynny yn cael eu hysgwyddo yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd i alluogi'r Aelod i gyflawni dyletswyddau Aelod.

**7.1.2.** Caiff cyfanswm gwariant blynyddol pob Aelod o'r lwfans hwn ei gyhoeddi ar wefan y Senedd. At hynny, cyhoeddir enw, rôl, perthynas a band cyflog yr holl staff a gyflogir sy'n aelodau o deulu Aelod ynghyd â'r goramser wythnosol cyfartalog a delir i aelodau'r teulu yn ystod y flwyddyn ariannol.

**7.1.3.** Caiff Aelodau hawlio lwfans i dalu costau cyflogau eu staff. Bydd cyfraniadau perthynol y cyflogwr at Yswiriant Gwladol yn cael eu talu'n ganolog a hynny heb eu didynnu o'r Lwfans Gwariant Staffio.

**7.1.4.** Caiff yr holl staff eu cyflogi ar un o bedwar band cyflog, Uwch-gynghorwr Band 1, Band 2 neu Fand 3, a rhaid eu penodi a'u cyflogi yn unol â'r Canllawiau Recriwtio a gyhoeddir gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

**7.1.5.** Mae'r graddfeydd cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y swyddi hyn yn 2025-26 wedi'u nodi isod.

**Tabl 2: Graddfeydd cyflog staff ar gyfer 2025-26**

| Band | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uwch-gynghorwr** | £43,296 | £45,478 | £47,778 | £50,190 | £52,737 |
| **Band 1** | £32,351 | £35,187 | £38,290 | £41,677 | £45,380 |
| **Band 2** | £27,722 | £30,426 | £33,411 | £36,219 | £40,321 |
| **Band 3** | £25,167 | £27,064 | £29,110 | £31,319 | £33,706 |

**7.1.5ZA.** [Wedi'i ddileu].

**7.1.5A.** [Wedi'i ddileu].

**7.1.5B.** [Wedi'i ddileu].

**7.1.5C.** [Wedi'i ddileu].

**7.1.5D.** [Wedi'i ddileu].

**7.1.5E.** [Wedi'i ddileu].

**7.1.5F.** [Wedi'i ddileu].

**7.1.5G.** Pan fydd y Cyflog Byw Gwirioneddol, a gyhoeddir gan y Sefydliad Cyflog Byw, yn cael ei addasu fel ei fod yn fwy nag unrhyw bwynt cyflog yn Nhabl 2 uchod, mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w drin fel y pwynt cyflog hwnnw am weddill y flwyddyn ariannol, gan ddod i rym o ddiwrnod cyntaf y mis yn dilyn y cyhoeddiad hwnnw.

## 7.2. Cynnydd drwy'r pwyntiau tâl

**7.2.1.** Disgwylir i bob aelod newydd o staff ddechrau ar raddfa isaf y band priodol. Caiff yr Aelod sy'n cyflogi bennu cyflog cychwynnol uwch ar gyfer staff newydd. Rhaid i Aelodau ddilyn y cyngor a roddir gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ar feini prawf cyflog cychwynnol i ddangos y cyfiawnhad dros gyflog cychwynnol uwch.

**7.2.2.** Ac eithrio pan fydd paragraff 7.2.3 yn gymwys, bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd hyd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band.

**7.2.3.** Pan fydd aelod o staff newydd yn dechrau yn ei swydd ar bwynt tâl 1 ac yn dangos perfformiad boddhaol drwy gydol y cyfnod prawf, caiff Aelodau, ar ddiwedd y cyfnod prawf, symud yr aelod o staff i fyny'r raddfa gynyddol i bwynt tâl 2 cyn y dyddiad y dechreuodd ei gyflogaeth. Wrth wneud hynny, rhaid i Aelodau roi sylw dyledus i'r cyngor a roddir gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ar feini prawf cyflog cychwynnol. Mewn achosion o'r fath, bydd adolygiadau blynyddol yn y dyfodol yn cael eu gwneud ar y dyddiad y dechreuodd yr aelod o staff ar bwynt cyflog 2 (yn hytrach na'r dyddiad y dechreuodd ei gyflogaeth).

**7.2.4.** Ni chaniateir talu bonws i'r staff o'r lwfans hwn (nac o'r un lwfans arall).

## 7.3. Mynegai blynyddol

**7.3.1.** Bydd tâl staff yn cael ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â'r newid yn Enillion Canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion rhwng mis Ebrill a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol.

**7.3.2.** [Wedi'i ddileu].

**7.3.3.** [Wedi'i ddileu]

## 7.4. Cyfuniadau staff

**7.4.1.** Caiff yr Aelodau gyflogi staff mewn unrhyw gyfuniad o fandiau cyflog ar yr amod na fydd cost wirioneddol y cyflogau sy'n daladwy mewn blwyddyn yn fwy na chyfanswm gwerth y Lwfans Gwariant Staffio. Cyfrifoldeb yr Aelod yw sicrhau bod cyfanswm cyflogau ei staff yn parhau'n fforddiadwy yn unol â'r lwfans sydd ar gael i'r Aelod yn y dyfodol, gan ystyried newidiadau cynyddrannol wrth i gyflogeion symud ar hyd y graddfeydd cyflog.

**7.4.2.** Yr enw ar y gwahaniaeth rhwng cost wirioneddol cyflogau staff a chyfanswm gwerth y Lwfans Gwariant Staffio yw'r 'Balans sy'n Weddill'.

**7.4.3.** Caniateir i'r Balans sy'n Weddill gael ei ddefnyddio i dalu'r costau a amlinellir yn adrannau 7.5 i 7.8 a hefyd i dalu costau eraill sy'n ymwneud â staff megis costau dileu swydd a gymeradwywyd (pan nad yw adran 7.13 yn gymwys), costau atodol lleoliadau gwaith, staff ac interniaid, ac ati.

## 7.5. Cymorth dros dro

**7.5.1.** Os bydd ar Aelod angen rhagor o gymorth dros dro na ellir ei dalu o'r Lwfans Staffio Dros Dro y darperir ar ei gyfer yn adran 7.12, caiff ddefnyddio'r Balans sy'n Weddill at y diben hwn. Rhaid i unrhyw gontractau sy'n hwy na chwe mis fod yn destun proses recriwtio agored a theg fel yr amlinellir yn y Canllawiau Recriwtio. Ni chaiff contractau cyfnod penodol fod yn hwy na 18 mis.

**7.5.2.** Pan fydd Aelod yn cynnig cyfleoedd ar gyfer lleoliadau di-dâl rhaid iddo gadw at y Polisi Lleoliadau Di-dâl.

**7.5.3.** Pan fydd Aelod yn cynnig lleoliad di-dâl sy'n hwy na phedair wythnos lawn, rhaid rhoi'r intern ar gontract tymor penodol gyda'r Aelod a thalu'r isafswm cyflog iddo ar y raddfa ar gyfer aelod o staff Band 3.

## 7.6. Cyflogi aelodau o'r teulu

**7.6.1.** O 1 Ebrill 2019, ni chaniateir i Aelod hawlio o'r lwfans hwn (nac o'r un lwfans arall) er mwyn talu cyflogau aelodau o'i deulu.

**7.6.2.** Nid yw paragraff 7.6.1 yn gymwys i aelodau o'r teulu a benodwyd cyn 1 Ebrill 2019. Bydd eu cyflogau hwy yn parhau i gael eu talu o'r Penderfyniad hyd at ddiwedd y Chweched Senedd. Yn ystod y cyfnod pontio (sy'n dod i ben ar ddiwedd y Chweched Senedd) ni chaiff yr Aelod

sy'n cyflogi wella contractau aelodau o'i deulu (bydd aelodau o'r teulu'n cael yr addasiad blynyddol i'w cyflog fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 7.3).

## 7.7. Darpariaeth yswiriant bywyd i staff Aelodau

**7.7.1.** Bydd taliad yn cael ei wneud mewn cysylltiad ag aelodau o staff a oedd mewn cyflogaeth ar ddyddiad eu marwolaeth.

**7.7.2.** Bydd y taliad ddwywaith y cyflog terfynol yn y flwyddyn olaf o gyflogaeth, neu, os yw'n uwch, y flwyddyn cyn y flwyddyn olaf o gyflogaeth.

**7.7.3.** Pan fydd cyflogeion wedi gweithio llai na blwyddyn galendr, bydd unrhyw daliad yn seiliedig ar gyflog a dalwyd hyd yma.

**7.7.4.** Nodir y manylion llawn yn y Ddarpariaeth Yswiriant Bywyd i Staff Cymorth yr Aelodau, sydd ar gael gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

## 7.8. Trosglwyddo arian

**7.8.1.** Yn achos yr Aelodau hynny a oedd â threfniadau ar waith cyn 1 Hydref 2018 i drosglwyddo arian o'u Lwfans Staffio i'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, caniateir iddynt barhau i drosglwyddo yn ystod y Bumed Senedd. O 1 Hydref 2018, ni fydd y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau yn cymeradwyo trefniadau trosglwyddo newydd.

**7.8.2.** Caiff Aelodau drosglwyddo hyd at 25 y cant o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i'w Lwfans Gwariant Staffio os bydd cronfeydd dros ben ar gael. Caiff Aelodau drosglwyddo hyd at yr un faint o'u Lwfans Gwariant Staffio i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr os bydd cronfeydd dros ben ar gael.

# Manylion contractau, talu cyflogau a darpariaethau pensiwn

## 7.9. Contractau cyflogaeth

**7.9.1.** Mae'n ofynnol i'r Aelodau roi datganiad ysgrifenedig safonol i bob un o'u gweithwyr cyflogedig yn nodi prif delerau ac amodau eu cyflogaeth sydd wedi'i gyhoeddi gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Rhaid i'r Aelodau roi copi wedi'i lofnodi i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau o fewn mis ar ôl i'r gyflogaeth ddechrau.

**7.9.2.** [Wedi'i ddileu]

## 7.9A Amser o'r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus

**7.9A.1.** Mae gan Aelod hawl i wneud cais o'i Lwfans Gwariant Staffio pan fo staff yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl er mwyn ymgymryd â'r dyletswyddau a ganlyn:

a. gwasanaeth rheithgor;

b. hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog;

c. dyletswyddau cyhoeddus di-dâl, megis cyflawni rôl llywodraethwr ysgol.

**7.9A.2.** Rhoddir terfyn ar y swm y gellir ei hawlio tuag at amser i ffwrdd â thâl at y dibenion hyn fel a ganlyn:

a. ar gyfer gwasanaeth rheithgor, cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith y mae'n ofynnol i aelod o staff fynd i'r llys;

b. ar gyfer hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog, uchafswm o 15 diwrnod fesul pob blwyddyn ariannol fesul aelod o staff;

c. ar gyfer unrhyw achos arall, uchafswm o 10 diwrnod fesul pob blwyddyn ariannol fesul aelod o staff.

**7.9A.3.** Caiff Aelod hawlio Lwfans Staffio Dros Dro tuag at y gost o drefnu staff cyflenwi pan fydd aelodau o staff yn cymryd amser o'r fath i ffwrdd o'r gwaith â thâl (gweler adran 7.12 isod).

**7.9A.4.** Ac eithrio gwasanaeth rheithgor a hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog, pan fydd staff yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus â thâl, megis dyletswyddau cynghorwyr awdurdodau lleol, rhaid iddynt gymryd yr amser hwnnw yn ddi-dâl. Gan nad yw cymryd amser i ffwrdd yn ddi-dâl yn arwain at wariant ychwanegol, dylai unrhyw gostau sy'n ymwneud â threfnu staff cyflenwi ar gyfer amser o'r fath gael eu talu o Lwfans Gwariant Staffio yr Aelod.

## 7.9B Lwfans gweithio gartref

**7.9B.1.** Caiff Aelod gynnig lwfans i'w staff tuag at gostau ychwanegol gweithio gartref ("lwfans gweithio gartref"). Dim ond pan fydd Aelod yn fodlon bod staff yn bodloni'r gofynion a bennir gan Gyllid a Thollau EF o bryd i'w gilydd y ceir darparu'r lwfans gweithio gartref.

**7.9B.2.** Caiff Aelod hawlio lwfans mewn perthynas â'r gost iddo o dalu'r lwfans gweithio gartref i staff. Rhaid talu'r lwfans gweithio gartref yn unol ag unrhyw ofynion a bennir gan Gyllid a Thollau EF o bryd i'w gilydd.

**7.9B.3.** Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2025-26, cyfradd y lwfans gweithio gartref yw £6 yr wythnos, neu £26 y mis i staff sy'n cael eu talu'n fisol fel ôl-daliad. Nid yw'r lwfans gweithio gartref ar sail pro rata.

**7.9B.4.** Caiff y lwfans gweithio gartref ei dalu o'r cronfeydd canolog.

## 7.10. Talu cyflogau

**7.10.1.** Bydd cyflogau staff yn cael eu talu'n fisol fel ôl-daliad ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis. Rhaid i'r taliadau gael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrif yr unigolyn drwy drosglwyddiad electronig (Gwasanaethau Clirio Awtomataidd y Bancwyr – BACS).

**7.10.2.** Caiff staff ofyn am un blaenswm o'u cyflog y flwyddyn.

## 7.11. Darpariaeth bensiwn i staff Aelodau

**7.11.1.** Mae gan Aelod hawl i wneud cais am lwfans ar gyfer y gost a dalwyd ganddo wrth gyfrannu at gynllun pensiwn personol unrhyw aelod o staff sy'n cael ei dalu:

- o'r Lwfans Gwariant Staffio; neu
- o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol.

**7.11.2.** Yr uchafswm sy'n daladwy yw 10 y cant o gyflog gwirioneddol yr aelod perthnasol o staff. Ni chaiff y lwfans hwn ei gymryd o'r Lwfans Gwariant Staffio nac o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

**7.11.3.** Yn ychwanegol at y cyfraniad pensiwn cyflogwr o 10 y cant a delir ar hyn o bryd ac y cyfeirir ato ym mharagraff 7.11.2, pan fydd aelod o staff yn dewis gwneud cyfraniad personol i'w bensiwn, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sy'n cyfateb i'r cyfraniadau personol hynny hyd at uchafswm o 3 y cant o'r cyflog gwirioneddol a delir. Telir y gost hon o'r cronfeydd canolog.

## 7.12. Lwfans Staffio Dros Dro

**7.12.1.** Pan fydd unigolyn y telir cyflog iddo gan Aelod o'r Lwfans Gwariant Staffio yn cael ei atal drwy salwch, absenoldeb mamolaeth, absenoldeb rhiant a rennir, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu neu amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus (yn unol ag adran 7.9A) rhag darparu cymorth i'r Aelod, gellir gwneud cais am Lwfans Staffio Dros Dro. Dim ond am gostau treuliau ychwanegol sy'n gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd yn gysylltiedig â galluogi Aelod i gyflawni dyletswyddau Aelod y gellir gwneud unrhyw hawliad o'r fath.

**7.12.2.** Dim ond o dan yr amodau a ganlyn y caniateir gwneud cais am Lwfans Staffio Dros Dro, sef os yw'r aelod o staff y mae angen y cymorth yn ei le:

- yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch; absenoldeb estynedig am resymau tosturiol; cyfnod mamolaeth, cyfnod tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir neu absenoldeb mabwysiadu; amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus yn unol ag adran 7.9A; a'i fod yn dal i gael ei gyflogi gan yr Aelod drwy ei Lwfans Gwariant Staffio;
- heb gael ei gyflogi ar sail achlysurol neu dros dro;
- yn absennol, os yw'n sâl neu'n absennol am gyfnod estynedig am resymau tosturiol, am gyfnod di-dor sy'n fwy na phythefnos;
- yn cyflwyno tystysgrifau meddygol ategol ar gyfer cyfnodau o salwch, tystysgrif mamolaeth (ffurflen MATB1) yn dangos yr wythnos y disgwylir rhoi genedigaeth yn achos cyfnod mamolaeth neu dadolaeth neu dystysgrif paru yn achos absenoldeb mabwysiadu neu dadolaeth (sy'n dechrau pan gaiff y plentyn ei fabwysiadu);
- yn meddu ar gontract cyflogaeth dilys sy'n pennu'r cyfnodau o salwch, mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir neu absenoldeb mabwysiadu â thâl.

**7.12.3.** Pan fydd Aelod yn gwneud cais am Lwfans Staffio Dros Dro pan fydd aelod o staff yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch, rhaid i'r Aelod gadw at delerau'r polisi Absenoldeb Salwch ar gyfer absenoldebau tymor byr neu dymor hir.

**7.12.4.** Pan fydd aelod o staff yn absennol tra bydd wedi'i atal â thâl a bod y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau wedi cytuno ar delerau'r atal, gellir gwneud cais i'r Bwrdd am Lwfans Staffio Dros Dro.

**7.12.5.** Seilir uchafswm y Lwfans Staffio Dros Dro a ganiateir ar swm cyflog gros y gweithiwr absennol am gyfnod penodedig (a ddangosir isod).

**7.12.6.** Anogir yr Aelodau i sicrhau bod gan yr holl staff sy'n rhoi'r cymorth dros dro drefniadau pensiwn yn unol ag arferion cyflogi da.

**7.12.7.** Mae absenoldeb salwch, cyfnodau mamolaeth a thadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir, absenoldeb mabwysiadu ac amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus yn cael eu trin yn hollol wahanol at ddibenion cyfrifo'r Lwfans Staffio Dros Dro. Gan hynny, bydd gan Aelod y mae ganddo gyflogai ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu absenoldeb rhiant

a rennir neu fabwysiadu ac absenoldeb salwch (ar wahân) gyfle i ddefnyddio dwy gyllideb ar wahân ar gyfer y Lwfans Staffio Dros Dro.

**7.12.8.** Pan fo unigolyn yn absennol oherwydd salwch, bydd y lwfans uchaf sydd ar gael yn cael ei seilio ar chwe mis ar gyflog llawn a chwe mis ar hanner cyflog (gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a chostau pensiwn) i bob cyflogai absennol cymwys.

**7.12.9.** Unwaith y bydd unigolyn yn absennol, oherwydd salwch, am gyfnod parhaus sy'n fwy na phythefnos, bydd y Lwfans Staffio Dros Dro yn dyddio'n ôl i'r dyddiad cyntaf o absenoldeb.

**7.12.10.** Pan fo unigolyn yn absennol oherwydd cyfnod mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir neu absenoldeb mabwysiadu, mae'r lwfans uchaf sydd ar gael yn cyfateb i 26 wythnos o gyflog gros y cyflogai absennol (gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a chostau pensiwn).

**7.12.11.** Pan fo cais am gymorth dros dro ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch gweithiwr yn defnyddio'r cyfnod hiraf a ganiateir yn y trefniadau hyn, dylai unrhyw estyniad i'r cymorth dros dro gael ei hawlio yn erbyn y Balans sy'n Weddill. Bydd y cyflogai parhaol wedi cyrraedd y terfyn cytundebol ar gyfer hawlogaethau cyflog ac ni fydd costau'r gweithiwr yn ei le yn ychwanegol mwyach at y costau cyflog arferol.

**7.12.12.** Os bydd cais am gymorth yn codi wedyn mewn perthynas â chyflogai sydd wedi cael 12 mis o absenoldeb salwch â thâl, yna dim ond os bydd cyfnod o 12 mis wedi mynd heibio ers diwedd y cais diwethaf y caniateir y cais hwnnw.

**7.12.13.** Caiff Aelod hefyd wneud cais am Lwfans Staffio Dros Dro pan fo aelod o staff yn cael ei atal rhag gweithio i'r Aelod o ganlyniad i gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl i gyflawni dyletswyddau cyhoeddus yn unol ag adran 7.9A uchod.

**7.12.14.** Pan fydd unigolyn yn absennol oherwydd ei fod yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl i gyflawni dyletswyddau cyhoeddus, mae'r lwfans uchaf sydd ar gael yn cyfateb i gyflog gros yr aelod absennol o staff (gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol a chostau pensiwn) sy'n daladwy yn ystod ei absenoldeb.

### Dileu swydd

## 7.13. Taliadau dileu swydd i staff sy'n cael eu talu o'r Lwfans Gwariant Staffio

**7.13.1.** [Wedi'i ddileu]

**7.13.1A.** Mae gan Aelod hawl i wneud cais am ei gostau wrth roi taliadau dileu swydd i staff cymwys:

a. pan fo'r Aelod yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd am unrhyw reswm, neu

b. pan fo'r Aelod yn ailstrwythuro ei dîm o staff yn ystod tymor y Senedd.

**7.13.2.** I fod yn gymwys, mae'n rhaid bod gan y staff o leiaf ddwy flynedd o wasanaeth gyda'r Aelod ar y dyddiad y maent yn peidio â chael eu cyflogi gan y cyn-Aelod

**7.13.3.** Cyfrifir taliadau dileu swydd ar sail yr hawlogaeth statudol wedi'i uwchraddio 100 y cant.

**7.13.4.** [Wedi'i ddileu]

**7.13.5.** [Wedi'i ddileu]

**7.13.5A**. Bydd y cyllid ar gyfer dileu swydd sy'n deillio o ailstrwythuro'r tîm o staff yr Aelod sy'n cyflogi yn cael ei ddidynnu o'r Lwfans Gwariant Staffio. Ym mhob achos arall, bydd y taliad dileu swydd yn cael ei dalu allan o'r cronfeydd canolog ac ni fydd yn cael ei ddidynnu o'r Lwfans Gwariant Staffio.

## 7.14. [Wedi'i ddileu – gweler adran 6.7A]

Teithio

## 7.15. Teithio gan aelodau o staff

**7.15.1.** Caiff Aelod wneud cais am ad-daliad o'r Lwfans Gwariant Staffio ar gyfer costau aelod o'i staff sy'n teithio ar y ffyrdd, ar y rheilffyrdd, mewn awyren neu ar y môr ar yr amod bod y siwrnai'n angenrheidiol at ddiben cefnogi'r Aelod i gyflawni dyletswyddau'r Aelod.

**7.15.2.** Caiff Aelod wneud cais am ad-daliad o dan yr adran hon ar gyfer costau a ysgwyddir drwy deithio arferol, teithio estynedig neu deithio rhyngwladol (fel y'u diffinnir ym Mhennod 5) gan ei staff.

**7.15.3.** Dim ond os na fydd y costau perthnasol yn cael eu had-dalu o ffynhonnell arall y caiff Aelod wneud cais am ad-daliad ar gyfer unrhyw siwrnai, er y gall siwrnai benodol gynnwys busnes ar ran yr Aelod a sefydliadau eraill.

**7.15.4.** Mae'r egwyddorion cyffredinol a ganlyn yn berthnasol i unrhyw hawliad am ad-daliad ar gyfer costau teithio o dan yr adran hon:

a. Disgwylir i staff Aelodau deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf costeffeithiol, gan gymryd i ystyriaeth union gost y siwrnai ac unrhyw gostau yn sgil aros dros nos. Er hynny, gellir ystyried hefyd yr amser a dreulir ar y siwrnai, ac os gellir profi bod manteision i siwrnai sy'n arbed amser, mae'n bosibl y bydd modd hawlio ad-daliad uwch. Pan fydd y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau (neu'r Prif Weithredwr a'r Clerc os caiff hawliad o'r fath ei drosglwyddo) o'r farn nad yw aelod o staff wedi teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf costeffeithiol, gellir tynnu swm priodol oddi ar ei ad-daliad.

b. Disgwylir i staff Aelodau chwilio am y tocyn teithio mwyaf costeffeithiol ar gyfer y siwrnai benodol, y dull teithio penodol a'r dosbarth teithio penodol, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiadau sydd ar gael. At hynny, dylai staff Aelodau sydd â chardiau rheilffordd neu sy'n gallu sicrhau mathau eraill o docynnau rhatach ddefnyddio'r rhain.

c. At ddibenion yr adran hon, mae teithio costeffeithiol yn golygu dull neu ddosbarth o deithio sy'n briodol i fodloni gofynion rhesymol aelod o staff mewn perthynas ag unrhyw anabledd.

d. Dylai staff Aelodau roi sylw i System Rheoli Amgylcheddol y Senedd, sydd wedi'i hanelu at annog Aelodau, eu staff a staff Comisiwn y Senedd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, beiciau neu gludiant cymunedol i deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith ac ar fusnes.

## Teithio arferol – yng Nghymru

**7.15.5.** Mae gan Aelod hawl i hawlio ad-daliad ar gyfer costau a ysgwyddir i alluogi ei staff i deithio mewn unrhyw ffordd resymol at ddiben cefnogi'r Aelod i gyflawni dyletswyddau'r Aelod.

**7.15.6.** Ni chaiff yr Aelodau wneud cais am ad-daliad ar gyfer unrhyw ffioedd parcio sy'n cael eu codi gan Gomisiwn y Senedd am ddarparu cyfleusterau parcio yn Nhŷ Hywel neu yn agos ato.

**7.15.7.** Pan fydd aelod o staff yn teithio yn y modd arferol mewn car, caiff yr Aelod wneud cais am lwfans milltiroedd wedi'i seilio ar yr union filltiroedd a deithiwyd.

**7.15.8.** Cyn cychwyn ar unrhyw daith ar y ffordd yn ddarostyngedig i baragraff 7.15.7, dylai staff Aelodau anelu at deithio yn y ffordd fwyaf cynaliadwy a phriodol bosibl. Dylai staff Aelodau ystyried pa mor ddichonol yw rhannu car gydag Aelod, aelod arall o staff neu aelod o staff Comisiwn y Senedd, a/neu ddefnyddio unrhyw gynllun allanol a gymeradwywyd ar gyfer rhannu

ceir y mae'r Senedd yn aelod cofrestredig ohono. Mae canllawiau llawn ar y mentrau presennol ynglŷn â rhannu ceir ar gael gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

**7.15.9.** Mae'r cyfraddau milltiroedd a nodir yn adran 5.5 yn gymwys.

**7.15.10.** Pan fo aelod o staff yn defnyddio cerbyd i deithio o'i brif gartref i'r orsaf reilffordd, yr orsaf fysiau neu'r maes awyr addas agosaf ac y bydd angen dychwelyd y cerbyd i'r prif gartref, caniateir i gost y siwrnai yn ôl gael ei hawlio.

**7.15.11.** Os bydd aelod o staff yn teithio yn y modd arferol mewn tacsi at ddiben cefnogi'r Aelod i gyflawni dyletswyddau'r Aelod, caiff yr Aelod wneud cais am ad-daliad nad yw'n fwy na chyfradd uwch y lwfans milltiroedd modur a bennir ym mharagraff 5.5.1.

**7.15.12.** Os nad yw'n rhesymol ymarferol i'r aelod o staff deithio heblaw mewn tacsi, caiff yr Aelod wneud cais am union lefel y gost a ysgwyddwyd ganddo.

**7.15.13.** Yr uchafswm y caiff Aelod ei hawlio o dan baragraffau 7.15.11 a 7.15.12 yw union lefel y gost a ysgwyddwyd.

**7.15.14.** Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caiff cost llogi ceir ei had-dalu, a hynny gyda chymeradwyaeth y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ymlaen llaw. Os gwneir siwrnai fel hyn, mae gan yr Aelod hawl i wneud cais am union lefel y gost a ysgwyddwyd.

**7.15.15.** Mae gan Aelodau hawl i wneud cais am union lefel y gost a ysgwyddir pan fydd eu staff yn teithio ar drên. I ddangos cyfrifoldeb ariannol, disgwylir i staff Aelodau ddewis teithio yn y dosbarth safonol oni bai bod yr Aelod yn gallu dangos er boddhad y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau fod angen gwneud fel arall.

**7.15.16.** Mae gan Aelod hawl i wneud cais am ad-daliad ar gyfer costau staff sy'n teithio mewn awyren sy'n rhan o wasanaeth rheolaidd ar gyfer siwrnai arferol. Mae gan Aelod hawl i wneud cais am gost teithio mewn awyren breifat neu awyren siarter fel rhan o'r trefniadau teithio arferol, hyd at uchafswm cost y siwrnai pe bai wedi'i gwneud mewn awyren sy'n rhan o wasanaeth rheolaidd.

### Teithio estynedig – mannau eraill yn y Deyrnas Unedig

**7.15.17.** Caiff Aelod wneud cais am ad-daliad ar gyfer costau a ysgwyddwyd i alluogi ei staff i deithio y tu allan i Gymru ond o fewn y Deyrnas Unedig at ddiben cefnogi'r Aelod i gyflawni dyletswyddau'r Aelod. Bydd lefelau'r lwfans a'r egwyddorion cyffredinol a'r amodau y telir ceisiadau am siwrneiau arferol oddi tanynt yn gymwys i geisiadau am deithio estynedig.

### Teithio rhyngwladol – teithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig

**7.15.18.** Caiff Aelod wneud cais i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau i'w staff fynd gyda'r Aelod pan fo'n teithio i wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

**7.15.19.** Cyn y daith, rhaid i Aelodau gyflwyno achos busnes i'w gymeradwyo gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Rhaid i'r achos busnes egluro'r rhesymau y mae angen i staff ymweld â'r wlad benodol honno, am faint o nosweithiau y bydd angen aros a sut y byddai'r ymweliad yn bodloni gofynion paragraff 7.15.1. Rhaid i'r achos busnes gynnwys pob aelod o staff sy'n bwriadu teithio.

**7.15.20.** Pan fwriedir i staff fynd gydag Aelod ar daith ryngwladol, er mwyn bodloni'r gofyniad ym mharagraff 7.15.19, caniateir i Aelod gyflwyno achos busnes o dan baragraff 5.15.2 sydd, ynghyd â bodloni gofynion y paragraff hwnnw, yn esbonio pam y mae angen i staff fynd gyda'r Aelod.

**7.15.21.** Mae gan Aelodau hawl i wneud cais am yr union gostau teithio a ysgwyddwyd gan eu staff ac i gael lwfans cynhaliaeth yn ddarostyngedig i'r uchafsymiau a ganlyn:

a. cost y tocyn awyren dwyffordd, a

b. llety am bum noson, prydau bwyd a theithio achlysurol.

**7.15.22.** O ran staff nad ydynt yn teithio yn yr awyr, caiff yr Aelod wneud cais am yr union gostau teithio o fewn yr uchafsymiau a nodir ym mharagraff 7.15.21.

**7.15.23.** Mater i'w benderfynu yn ôl disgresiwn y Prif Weithredwr a'r Clerc yw pa mor dderbyniol yw unrhyw geisiadau eraill ar gyfer unrhyw siwrneiau na chytunwyd arnynt yn y modd hwn.

## 7.16. Llety staff

**7.16.1.** Os oes angen i aelod o staff, at ddiben cefnogi'r Aelod i gyflawni dyletswyddau'r Aelod, aros mewn llety dros nos, caiff yr Aelod wneud cais am ad-daliad o'r Lwfans Gwariant Staffio ar gyfer y costau a ysgwyddwyd yn unol â'r adran hon.

**7.16.2.** Yn ddarostyngedig i baragraff 7.16.6, ni chaniateir gwneud hawliad o dan yr adran hon yn achos arhosiad dros nos y tu allan i'r Deyrnas Unedig oni bai bod yr Aelod wedi cael cymeradwyaeth y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ymlaen llaw ar gyfer yr achos busnes a gyflwynwyd yn unol â pharagraff 7.15.19.

**7.16.3.** Yr un yw'r uchafswm fesul noson y gellir ei hawlio am aros mewn gwesty â'r hyn a nodir ym mharagraff 4.5.5. Yn unol â pharagraff 4.5.5A, pan fydd nosweithiau olynol yn cael eu harchebu fel un trafodiad, bydd y symiau uchaf ym mharagraff 4.5.5 yn gymwys i'r gost gyfartalog fesul noson.

**7.16.4.** Dim ond â chymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau y gellir mynd y tu hwnt i'r uchafswm fesul noson hwn, a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y rhoddir cymeradwyaeth o'r fath.

**7.16.5.** Os bydd aelod o staff yn aros dros nos mewn gwesty, caiff yr Aelod wneud cais am ad-daliad ar gyfer cost pryd gyda'r nos i'r aelod staff, yn amodol ar uchafswm o £20 y noson. Ni chaiff y swm a hawlir gynnwys cost unrhyw ddiodydd alcoholig.

**7.16.6.** Caniateir ad-dalu hawliad nad yw'n cydymffurfio â gofynion paragraff 7.16.2 yn yr achosion a ganlyn:

a. os nad oedd yn rhesymol ymarferol cydymffurfio â'r gofynion hynny;

b. os bydd yr Aelod yn rhoi esboniad ysgrifenedig i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau pam nad oedd yn rhesymol ymarferol cydymffurfio â'r gofynion hynny;

c. os caiff y cais ei gymeradwyo gan y Prif Weithredwr a'r Clerc.

## 7.17. Cyngor allanol arbenigol ar weithredu'r fframwaith cyflogau a graddfeydd cyflog ar gyfer staff cymorth yn y Seithfed Senedd

**7.17.1.** Caiff Aelod hawlio hyd at £1,275 (i'w ddarparu o gronfeydd canolog) am y gost o gael cyngor allanol arbenigol i helpu'r Aelod i baratoi ar gyfer gweithredu'r fframwaith cyflogau a graddfeydd cyflog a fydd yn berthnasol i staff a gyflogir gan yr Aelodau yn y Seithfed Senedd.

**7.17.2.** Rhaid i'r cyngor allanol arbenigol beidio â bod yn gyngor y gellir ei gael gan Gomisiwn y Senedd.

**7.17.3.** Rhaid gwneud hawliad o dan yr adran hon cyn 1 Ebrill 2026.

# 8. Cymorth i'r pleidiau gwleidyddol

## 8.1. Diben

**8.1.A1.** Mae Arweinydd pob Plaid Wleidyddol yn gyflogwr. Rôl y Bwrdd yw darparu lwfans staffio i bob Plaid Wleidyddol yn ogystal â phennu'r fframwaith cyflogaeth drwy ddarparu graddfeydd cyflog a chontractau safonedig.

**8.1.1.** Mae Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol yn bodoli i helpu pleidiau i gyflawni eu gwaith yn y Senedd. Dim ond mewn perthynas â chostau yr eir iddynt gan Aelodau yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd at ddibenion cyflawni dyletswyddau Aelod y mae'r Lwfans Pleidiau Gwleidyddol ('y lwfans') yn daladwy.

**8.1.2.** Nid oes modd cynhyrchu rhestr gynhwysfawr o'r holl eitemau a ganiateir, ond gallai'r enghreifftiau a ganlyn helpu'r Aelodau i benderfynu a gânt wneud cais ai peidio (os oes unrhyw amheuaeth, dylid cysylltu â'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau):

a. cyflogi staff mewn swyddogaeth weinyddol;

b. cyflogi staff i wneud gwaith ymchwil;

c. costau goramser, teithio, ac ati;

d. caffael offer swyddfa a llogi cyfleusterau.

**8.1.3.** Caniateir i'r gwariant o dan y lwfans hwn gael ei awdurdodi gan Arweinydd Plaid Wleidyddol neu gan Aelod arall o'r fath y mae'r Arweinydd wedi dirprwyo awdurdod iddo. Caiff cyfanswm gwariant blynyddol pob Plaid Wleidyddol o'r lwfans hwn ei gyhoeddi ar wefan y Senedd.

**8.1.4.** Mae'n ofynnol i Aelodau sy'n gyfrifol am gyflogi staff Pleidiau Gwleidyddol roi datganiad ysgrifenedig safonol i bob un o'u gweithwyr cyflogedig yn nodi prif delerau ac amodau eu cyflogaeth sydd wedi'i gyhoeddi gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Rhaid i Bleidiau Gwleidyddol ac Aelodau unigol roi copi wedi'i lofnodi i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau o fewn mis ar ôl i'r gyflogaeth ddechrau.

**8.1.5.** [Wedi'i ddileu]

**8.1.5A.** Mae gan Aelod hawl i wneud cais o'r lwfans pan fo aelod o staff y Blaid Wleidyddol yn cymryd amser i ffwrdd â thâl er mwyn ymgymryd â'r dyletswyddau a ganlyn:

a. gwasanaeth rheithgor;

b. hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog;

c. dyletswyddau cyhoeddus di-dâl, megis cyflawni rôl llywodraethwr ysgol.

**8.1.5B.** Rhoddir terfyn ar y swm y gellir ei hawlio tuag at amser i ffwrdd â thâl at y dibenion hyn fel a ganlyn:

a. ar gyfer gwasanaeth rheithgor, cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith y mae'n ofynnol i'r aelod o staff y Blaid Wleidyddol fynd i'r llys;

b. ar gyfer hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog, uchafswm o 15 diwrnod am bob blwyddyn ariannol fesul aelod o staff y Blaid Wleidyddol;

c. ar gyfer unrhyw achos arall, terfyn uchaf o 10 diwrnod fesul pob blwyddyn ariannol fesul aelod o staff y Blaid Wleidyddol.

**8.1.5C.** Ac eithrio gwasanaeth rheithgor a hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog, pan fydd staff yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus â thâl, megis dyletswyddau cynghorwyr awdurdodau lleol, rhaid iddynt gymryd yr amser hwnnw yn ddi-dâl. Gan nad yw cymryd amser i ffwrdd yn ddi-dâl yn arwain at wariant ychwanegol, dylai unrhyw gostau sy'n ymwneud â threfnu staff cyflenwi ar gyfer amser o'r fath gael eu talu o'r lwfans.

**8.1.6.** Bydd cyfraniadau perthynol y cyflogwr at Yswiriant Gwladol ar gyfer unrhyw staff a ariennir o dan unrhyw rai o ddarpariaethau'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol yn cael eu talu o'r cronfeydd canolog a hynny heb eu didynnu o'r lwfans hwn.

**8.1.7.** [Wedi'i ddileu].

**8.1.8.** Ni chaniateir talu bonws i staff Plaid Wleidyddol o'r lwfans hwn (nac o'r un lwfans arall).

## 8.2. Cyfuniadau staff

**8.2.1.** Caiff Pleidiau Gwleidyddol gyflogi staff mewn unrhyw gyfuniad o'r bandiau cyflog ar yr amod nad yw cost wirioneddol cyflogau'r holl staff sy'n daladwy yn y flwyddyn ariannol honno yn fwy na chyfanswm y lwfans fel a ganlyn:

a. cyfanswm y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol a fydd ar gael fydd £1,235,040;

b. bydd unrhyw Blaid neu Bleidiau Gwleidyddol sy'n rhan o Lywodraeth Cymru yn cael lwfans gweinyddu craidd o £13,580 am bob Aelod, hyd at uchafswm o £203,480;

c. bydd unrhyw Blaid Wleidyddol nad yw'n rhan o Lywodraeth Cymru yn cael hawlio lwfans gweinyddu craidd o £67,170 os oes ganddi dri Aelod neu ragor;

d. ar ôl dyrannu'r lwfansau gweinyddu craidd, caiff gweddill y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ei ddyrannu ar sail y pen ymysg yr holl Aelodau nad yw eu pleidiau'n rhan o Lywodraeth Cymru.

**8.2.2.** Yr enw ar y gwahaniaeth rhwng cost wirioneddol cyflogau'r holl staff a chyfanswm gwerth y lwfans yw'r "Balans sy'n Weddill". Cyfrifoldeb y Blaid Wleidyddol yw sicrhau bod cyfanswm cyflogau'r staff yn parhau'n fforddiadwy yn unol â'r lwfans sydd ar gael i'r Blaid Wleidyddol yn y dyfodol, gan ystyried newidiadau cynyddrannol wrth i gyflogeion symud ar hyd y graddfeydd cyflog.

**8.2.3.** Caniateir i'r Balans sy'n Weddill gael ei ddefnyddio i dalu'r costau a amlinellir yn adrannau 8.6 i 8.8 a hefyd i dalu costau eraill sy'n ymwneud â staff megis costau dileu swydd a gymeradwywyd (pan nad yw adran 8.9 yn gymwys), costau teithio, llogi cyfleusterau, etc.

**8.2.4.** Rhaid i'r holl staff gael eu cyflogi ar bwynt cyflog mewn un o bum band cyflog, sef Pennaeth Staff, Cymorth Grŵp Ychwanegol, Band 1, Band 2 neu Fand 3, (fel y'u nodir yn Nhabl 3), a rhaid eu cyflogi yn unol â'r Canllawiau Recriwtio a roddir i'r Aelodau gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

**8.2.5.** Ni cheir ariannu mwy nag un swydd sy'n gyfwerth ag amser llawn (37 awr) o'r band Pennaeth Staff.

**8.2.6.** Mae'r graddfeydd cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y swyddi hyn yn 2025-26 wedi'u nodi isod.

**Tabl 3: Graddfeydd cyflog staff Pleidiau Gwleidyddol ar gyfer 2025-26**

| Band | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pennaeth Staff** | £47,557 | £49,960 | £52,488 | £55,143 | £57,941 |
| **Uwch-gynghorwr** | £43,296 | £45,478 | £47,778 | £50,190 | £52,737 |
| **Band 1** | £32,351 | £35,187 | £38,290 | £41,677 | £45,380 |
| **Band 2** | £27,722 | £30,426 | £33,411 | £36,219 | £40,321 |
| **Band 3** | £25,167 | £27,064 | £29,110 | £31,319 | £33,706 |

**8.2.6ZA.** [Wedi'i ddileu]

**8.2.6A.** [Wedi'i ddileu].

**8.2.6B.** [Wedi'i ddileu].

**8.2.6C.** [Wedi'i ddileu].

**8.2.6D.** [Wedi'i ddileu].

**8.2.6E.** [Wedi'i ddileu].

**8.2.6F.** [Wedi'i ddileu].

**8.2.6G.** Pan fydd y Cyflog Byw Gwirioneddol, a gyhoeddir gan y Sefydliad Cyflog Byw, yn cael ei addasu fel ei fod yn fwy nag unrhyw bwynt cyflog yn Nhabl 3 uchod, mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w drin fel y pwynt cyflog hwnnw am weddill y flwyddyn ariannol, gan ddod i rym o ddiwrnod cyntaf y mis yn dilyn y cyhoeddiad hwnnw.

## 8.3. Cynnydd drwy'r pwyntiau tâl

**8.3.1.** Disgwylir i bob aelod newydd o staff ddechrau ar raddfa isaf y band priodol. Fodd bynnag, caiff Arweinydd y Blaid Wleidyddol sy'n cyflogi bennu cyflog cychwynnol uwch ar gyfer staff newydd yn unol â'r canllawiau ar feini prawf cyflog cychwynnol. Rhaid i Arweinwyr Pleidiau Gwleidyddol ddilyn y canllawiau i gyfiawnhau cyflog cychwynnol uwch.

**8.3.2.** Ac eithrio pan fydd paragraff 8.3.3 yn gymwys, bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd hyd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band.

**8.3.3.** Pan fo aelod o staff newydd yn dechrau yn ei swydd ar bwynt tâl 1 ac yn perfformio'n foddhaol drwy gydol y cyfnod prawf, caiff Arweinwyr Pleidiau Gwleidyddol, ar ddiwedd y cyfnod prawf, symud yr aelod o staff i fyny'r raddfa gynyddol i bwynt tâl 2 cyn y dyddiad y dechreuodd ei gyflogaeth. Wrth wneud hynny, rhaid i Arweinwyr Pleidiau Gwleidyddol roi sylw dyledus i'r

canllawiau a ddarperir iddynt. Mewn achosion o'r fath, bydd adolygiadau blynyddol yn y dyfodol yn cael eu gwneud ar y dyddiad y dechreuodd yr aelod o staff ar bwynt tâl 2 (yn hytrach na'r dyddiad y dechreuodd ei gyflogaeth).

## 8.4. Mynegai blynyddol

**8.4.1.** Bydd tâl staff Pleidiau Gwleidyddol yn cael ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â'r newid yn Enillion Canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion rhwng mis Ebrill a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol.

**8.4.2.** [Wedi'i ddileu].

**8.4.3.** [Wedi'i ddileu].

## 8.5. Cyflogi aelodau o'r teulu

**8.5.1.** O 1 Ebrill 2019, ni chaniateir i Aelod hawlio o'r lwfans hwn (nac o'r un lwfans arall) er mwyn talu cyflogau aelodau o'r teulu.

**8.5.2.** Nid yw paragraff 8.5.1 yn gymwys i aelodau o deulu Arweinydd y Blaid a benodwyd cyn 1 Ebrill 2019. Bydd eu cyflogau hwy yn parhau i gael eu talu o'r Penderfyniad hyd at ddiwedd y Chweched Senedd. Yn ystod y cyfnod pontio (a ddaw i ben ar ddiwedd y Chweched Senedd) ni chaniateir i gontractau aelodau o deulu Arweinydd y Blaid gael eu cynyddu gan y Blaid Wleidyddol sy'n eu cyflogi (bydd aelodau'r teulu'n cael yr addasiad blynyddol i'w cyflog fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 8.4).

## 8.5A Lwfans gweithio gartref

**8.5A.1.** Caiff Aelod gynnig lwfans i'w staff tuag at gostau ychwanegol gweithio gartref ("lwfans gweithio gartref"). Dim ond pan fydd Aelod yn fodlon bod staff yn bodloni'r gofynion a bennir gan Gyllid a Thollau EF o bryd i'w gilydd y ceir darparu'r lwfans gweithio gartref.

**8.5A.2.** Caiff Aelod hawlio lwfans mewn perthynas â'r gost iddo o dalu'r lwfans gweithio gartref i staff. Rhaid talu'r lwfans gweithio gartref yn unol ag unrhyw ofynion a bennir gan Gyllid a Thollau EF o bryd i'w gilydd.

**8.5A.3.** Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2025-26, cyfradd y lwfans gweithio gartref yw £6 yr wythnos, neu £26 y mis i staff sy'n cael eu talu'n fisol fel ôl-daliad. Nid yw'r lwfans gweithio gartref ar sail pro rata.

**8.5A.4.** Caiff y lwfans gweithio gartref ei dalu o'r cronfeydd canolog.

## 8.5B Costau teithio a llety staff

**8.5B.1.** Caiff Pleidiau Gwleidyddol hawlio o'r Balans sy'n Weddill ar gyfer costau teithio a llety staff a gaiff eu hysgwyddo at ddibenion cynorthwyo pleidiau i ymgymryd â'u gwaith yn y Senedd a chefnogi Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau.

**8.5B.2.** Bydd unrhyw hawliad o dan yr adran hon yn cael ei ystyried yn unol â'r darpariaethau yn adran 7.15 (teithio gan aelodau o staff) ac adran 7.16 (llety staff).

## 8.6. Offer a deunyddiau swyddfa

**8.6.1.** Caniateir i Bleidiau Gwleidyddol ddefnyddio'r Balans sy'n Weddill i brynu neu logi offer swyddfa a deunyddiau swyddfa, ond rhaid i bob penderfyniad i brynu fel hyn gael ei wneud yn unol â gofynion Pennod 6 o'r Penderfyniad hwn.

## 8.7. Darpariaeth yswiriant bywyd i staff Pleidiau Gwleidyddol

**8.7.1.** Bydd taliad yn cael ei wneud mewn cysylltiad ag aelodau o staff a oedd mewn cyflogaeth ar ddyddiad eu marwolaeth.

**8.7.2.** Bydd y taliad ddwywaith y cyflog terfynol yn y flwyddyn olaf o gyflogaeth, neu, os yw'n uwch, y flwyddyn cyn y flwyddyn olaf o gyflogaeth.

**8.7.3.** Pan fydd cyflogeion wedi gweithio llai na blwyddyn galendr, bydd unrhyw daliad yn seiliedig ar gyflog a dalwyd hyd yma.

**8.7.4.** Nodir y manylion llawn yn y Ddarpariaeth Yswiriant Bywyd i Staff Cymorth yr Aelodau, sydd ar gael gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

## 8.7A Costau polisi ac ymchwil

**8.7A.1.** Caiff Pleidiau Gwleidyddol ddefnyddio'r Balans sy'n Weddill ar gyfer y gost o gael gafael ar arbenigedd allanol, am gyfnod penodedig, er mwyn cyflawni darn o waith polisi ac ymchwil penodol.

**8.7A.2.** Caniateir defnyddio'r balans sy'n weddill ar gyfer ymchwil i:

a. datblygu polisi;

b. ymchwilio i faterion sydd o bwys i etholwyr;

c. craffu ar bolisi, deddfwriaeth neu gyllid.

**8.7A.3.** [Wedi'i ddileu]

**8.7A.4.** [Wedi'i ddileu]

**8.7A.5.** [Wedi'i ddileu]

Trefniadau eraill

## 8.8. Darpariaeth bensiwn i staff Pleidiau Gwleidyddol

**8.8.1.** Mae gan Bleidiau Gwleidyddol hawl i wneud cais am ad-daliad ar gyfer costau a ysgwyddwyd ganddynt wrth dalu cyfraniadau i gynllun pensiwn personol unrhyw staff sydd gan y grŵp.

**8.8.2.** Yr uchafswm sy'n daladwy yw 10 y cant o gyflog gwirioneddol yr aelod perthnasol o staff. Mae'r gost hon yn cael ei thalu o'r cronfeydd canolog ac nid yw'n cyfrif yn erbyn y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol.

**8.8.3.** Yn ychwanegol at y cyfraniad pensiwn cyflogwr o 10 y cant a delir ar hyn o bryd, ac y cyfeirir ato ym mharagraff 8.8.2, pan fydd aelod o staff yn dewis gwneud cyfraniad personol i'w bensiwn, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sy'n cyfateb i'r cyfraniadau personol hynny hyd at uchafswm o 3 y cant o'r cyflog gwirioneddol a delir. Telir y gost hon o'r cronfeydd canolog.

## 8.9. Trefniadau dileu swydd

**8.9.1.** Mae'r trefniadau dileu swydd hyn yn gymwys i Bleidiau Gwleidyddol sy'n cynnwys Aelodau a etholwyd i'r Chweched Senedd.

**8.9.2.** Mae gan Blaid Wleidyddol hawl i wneud cais am gost taliadau dileu swydd i staff cymwys os bydd cyfansoddiad y blaid yn newid am y rhesymau a ganlyn:

a. o ganlyniad i etholiad;

b. pan fydd Aelod o Blaid Wleidyddol yn peidio â bod yn Aelod o'r Blaid Wleidyddol yn ystod y Senedd, neu

c. unrhyw reswm arall sy'n lleihau neu'n dileu'r hawl i ddefnyddio'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ym mharagraff 8.2.1.

**8.9.2A.** Mae gan Blaid Wleidyddol hawl i wneud cais am gost taliadau dileu swydd i staff cymwys pan fo'r Blaid sy'n cyflogi yn ailstrwythuro ei thîm o staff yn ystod tymor y Senedd.

**8.9.3.** I fod yn gymwys, mae'n rhaid bod gan staff y gwneir taliadau iddynt o leiaf ddwy flynedd o wasanaeth gyda'r blaid sy'n eu cyflogi ar y dyddiad y maent yn peidio â chael eu cyflogi gan y blaid (neu'r gyn-blaid). Cyfrifir taliadau dileu swydd ar sail yr hawlogaeth statudol a nodir yn y ddeddfwriaeth gyflogaeth gyfredol, wedi'i uwchraddio 100 y cant.

**8.9.3A.** Bydd arian ar gyfer dileu swydd sy'n deillio o ailstrwythuro'r tîm o staff y Blaid sy'n cyflogi yn cael ei ddidynnu o'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol. Ym mhob achos arall, telir am ddileu swydd o'r cronfeydd canolog.

**8.9.4.** [Wedi'i ddileu]

**8.9.5.** [Wedi'i ddileu]

## 8.10. Cyngor allanol arbenigol ar weithredu'r fframwaith cyflogau a graddfeydd cyflog ar gyfer staff cymorth yn y Seithfed Senedd

**8.10.1.** Caiff Arweinydd Plaid Wleidyddol3 hawlio hyd at £1,275 (i'w ddarparu o gronfeydd canolog) am y gost o gael cyngor allanol arbenigol i helpu Arweinydd y Blaid Wleidyddol i baratoi ar gyfer gweithredu'r fframwaith cyflogau a graddfeydd cyflog a fydd yn berthnasol i staff a gyflogir gan Arweinwyr Pleidiau Gwleidyddol yn y Seithfed Senedd.

**8.10.2.** Rhaid i'r cyngor allanol arbenigol beidio â bod yn gyngor y gellir ei gael gan Gomisiwn y Senedd.

**8.10.3.** Rhaid gwneud hawliad o dan yr adran hon cyn 1 Ebrill 2026.

[3] O ran Arweinwyr Pleidiau Gwleidyddol, bydd y swm o £1,275 ar gael i arweinydd "Plaid Wleidyddol" fel y'i diffinnir ar hyn o bryd yn y Penderfyniad.

# 9. Aelodau sy'n gadael eu swyddi

## 9.1. Lwfans dirwyn i ben

**9.1.1.** Mae gan berson sydd, am ba reswm bynnag, wedi peidio â bod yn Aelod ("cyn-Aelod") hawl i wneud cais am lwfans mewn perthynas â'r gost a ysgwyddwyd yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd wrth gwblhau unrhyw waith a oedd ar y gweill pan beidiodd y person hwnnw â bod yn Aelod.

**9.1.2.** Mae Aelod yn peidio â bod yn Aelod (ac yn peidio â chael ei drin fel Aelod yn achos (d)) ar y dyddiad y digwydd unrhyw un o'r canlynol:

a. bod yr Aelod yn ymddiswyddo,

b. bod yr Aelod yn marw,

c. bod y Senedd yn cael ei diddymu, os nad yw'r Aelod yn ymgeisydd i'w ethol i'r Senedd newydd, neu

d. y diwrnod pleidleisio, os yw'r Aelod yn ymgeisydd i'w ethol i'r Senedd newydd ond nad yw wedi'i ethol (fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 22(4) o Ddeddf 2006).

**9.1.3.** Bydd swm y gellir ei hawlio yn cael ei bennu mewn cynllun dirwyn i ben ysgrifenedig y cytunwyd arno rhwng y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau a'r cyn-Aelod. Cyfrifir y swm drwy gyfeirio at y cyfnod y cytunir arno ar gyfer y broses o ddirwyn i ben a'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, y Gwariant Llety Preswyl a'r rhan honno o'r Lwfans Gwariant Staffio sy'n darparu ar gyfer y cyflogau gwirioneddol sy'n cael eu talu i'r staff a oedd yn cael eu cyflogi gan y cyn-Aelod ar y diwrnod y peidiodd â bod yn Aelod. Mae'r cynllun dirwyn i ben y cytunir arno i barhau (yn ddarostyngedig i baragraff 9.1.5) am dri mis fan bellaf ac ni chaiff yr un hawliad ei ystyried mewn perthynas â chostau a ysgwyddir ar ôl diwedd cyfnod y cynllun.

**9.1.4.** Bydd y swm sy'n daladwy o dan y lwfans hwn yn gostwng yn ôl faint o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, y Gwariant Llety Preswyl a'r rhan honno o'r Lwfans Gwariant Staffio y cyfeirir ati ym mharagraff 9.1.3 a ordalwyd (gan ddefnyddio'r rheolau pro rata a ddisgrifir ym mharagraff 2.1.1).

**9.1.5.** O ran Aelod sydd wedi marw:

a. mae i'r lwfans hwn effaith fel pe bai cyfeiriadau at y cyn-Aelod yn cael eu cymryd, fel y bo'n briodol, fel cyfeiriadau at gynrychiolwyr personol yr Aelod ymadawedig;

b. nid yw'r cyfnod hiraf o dri mis y cyfeirir ato ym mharagraff 9.1.3 yn gymwys ond mae'n rhaid i'r cynllun ddarparu ar gyfer gorffen y broses o ddirwyn i ben cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol o dan yr amgylchiadau.

## 9.2. Gwaith sydd wedi'i wneud a chostau

**9.2.1.** Gall cais am waith sydd wedi'i wneud a chostau sydd wedi'u hysgwyddo yn unol â pharagraffau 9.1.1 a 9.1.3 gynnwys y canlynol:

- cyflogau a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwr ar gyfer staff sy'n parhau i gael eu cyflogi ynghyd â chyfraniadau pensiwn cysylltiedig;
- rhwymedigaethau contractau staff;
- rhwymedigaethau contract i dalu am logi offer neu drefniadau i brydlesu llety;
- costau post, deunydd swyddfa a ffôn;
- costau teithio.

**9.2.2.** Nid yw taliadau dileu swydd o dan adrannau 7.13 ac 8.9 yn dod o fewn cwmpas y lwfans hwn.

## 9.2A Taliadau dirwyn i ben

**9.2A.1.** Caiff person sy'n peidio â bod yn Aelod wrth i'r Senedd gael ei diddymu gan nad yw'r person yn ymgeisydd yn yr etholiad i'r Senedd newydd hawlio taliad dirwyn i ben o swm sy'n cyfateb i gyflog dau fis, wedi'i gyfrifo ar sail y cyflog yr oedd gan Aelod hawl i'w gael o dan baragraff 3.1.2 ar gyfer y mis sy'n dechrau 1  Ebrill 2026.

**9.2A.2.** Caiff person sy'n peidio â bod yn Aelod ar ddiwrnod pleidleisio gan fod y person yn ymgeisydd yn yr etholiad i'r Senedd newydd ond na chafodd ei ethol hawlio taliad dirwyn i ben sy'n cyfateb i gyflog tri mis, wedi'i gyfrifo ar sail y cyflog yr oedd gan Aelod hawl i'w gael o dan baragraff 3.1.2 ar gyfer y mis sy'n dechrau 1 Ebrill 2026.

## 9.3. Grant Ymaddasu

**9.3.1.** O ran person sy'n Aelod o'r Senedd yn union cyn diddymu'r Senedd ac sy'n ymgeisydd i'w ailethol ond nad yw'n cael ei ailethol, mae ganddo'r hawl i hawlio Grant Ymaddasu.

**9.3.2.** Yn y paragraff blaenorol, mae 'ymgeisydd i'w ailethol' yn cynnwys person ar restr ymgeiswyr Plaid Wleidyddol gofrestredig; ac mae 'cael ei ailethol' yn cynnwys person sydd wedi'i ethol dros un o ranbarthau etholiadol y Senedd.

**9.3.3.** Bydd Grant Ymaddasu yr Aelodau sydd hefyd, neu a fu hefyd, yn Aelodau Seneddol ac y mae, neu yr oedd, eu cyflog yn y Senedd wedi'i ostwng dwy ran o dair yn unol â pharagraff 3.1.3 o'r Penderfyniad hwn, yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at y lefel cyflog llawn.

**9.3.4.** Mae'r Grant Ymaddasu sy'n daladwy yn gyfwerth â chyflog un mis (ar y gyfradd sy'n daladwy i Aelodau yn union cyn y diddymiad) ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth a gwblhawyd yn ddarostyngedig i uchafswm sy'n gyfwerth â chwe mis o gyflog.

**9.3.5.** O ran Aelodau sydd ar unrhyw adeg yn ystod eu cyfnod o wasanaeth (a gyfrifir yn unol â pharagraff 9.5.1) wedi cyflawni swydd ychwanegol fel y'i pennir yn Nhabl 1 ym Mhennod 3 (paragraff 3.1.4), bydd ganddynt hawl i gael taliad ychwanegol ar ffurf Grant Ymaddasu. Bydd y taliad yn cyfateb i swm y cyflog a dalwyd i ddeiliad y swydd ychwanegol honno yn y tri mis cyn iddo roi'r gorau i'r swydd ychwanegol. Os oedd gan yr Aelod fwy nag un swydd ychwanegol yn ystod y cyfnod hwnnw, y swm uchaf a dalwyd i'r Aelod hwnnw fydd swm y cyflog y seilir y taliad hwn arno. Er hynny, os yw'r Aelod wedi dewis peidio â derbyn cyflog ychwanegol y mae ganddo hawl i'w gael, neu os yw wedi dewis derbyn swm gostyngedig, caiff y taliad ychwanegol o dan y paragraff hwn ei gyfrif drwy gyfeirio at y cyflog heb ei ostwng.

## 9.4. [Wedi'i ddileu]

## 9.5. Cyfrif blynyddoedd o wasanaeth

**9.5.1.** Wrth gyfrif nifer y blynyddoedd o wasanaeth (at ddibenion paragraffau 9.3.4 a 9.3.5), ni fydd cyfnod fel Aelod yn cael ei gyfrif fwy nag unwaith; bydd unrhyw gyfnod o wasanaeth a anwybyddwyd wrth gyfrif Grant Ymaddasu blaenorol yn cael ei anwybyddu y tro hwn hefyd. Hefyd, anwybyddir unrhyw ffracsiwn o flwyddyn, ac eithrio os bydd Aelod a etholwyd gyntaf mewn etholiad cyffredinol cyffredin yn methu cwblhau blwyddyn am fod dyddiad y diddymiad cyn yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf yn llai na blwyddyn ar ôl y dyddiad yr etholwyd yr Aelod am y tro cyntaf. Mewn achos o'r fath, ystyrir bod yr Aelod wedi gwasanaethu am flwyddyn gyfan.

## 9.6. Grant Ymddeol oherwydd Salwch

**9.6.1.** Mae gan unrhyw Aelod y mae ei iechyd yn ei rwystro rhag parhau i fod yn Aelod o'r Senedd hawl i wneud cais am Grant Ymddeol oherwydd Salwch pan fydd yn rhoi'r gorau i fod

yn Aelod. Mae lefel y grant sy'n daladwy yn cael ei gyfrif ar yr un sail â chais am Grant Ymaddasu o dan adran 9.3.

**9.6.2.** Ni fydd gan Aelod sy'n hawlio Grant Ymddeol oherwydd Salwch hawl i wneud cais am Grant Ymaddasu y tro nesaf y caiff y Senedd ei diddymu.

# Atodiad: Penderfyniadau a fydd yn gymwys o 7 Mai 2026

- Mae'r Atodiad hwn yn cynnwys penderfyniadau y mae'r Bwrdd wedi'u gwneud a fydd yn berthnasol o 7 Mai 2026, h.y. o ddechrau'r Seithfed Senedd.
- Bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu hymgorffori ym mhrif gorff Penderfyniad y Seithfed Senedd, ond maent wedi'u cynnwys yn yr Atodiad hwn am y tro yn unol ag adran 12(3) o'r Mesur.
- Gellir diweddaru'r Atodiad hwn eto gyda phenderfyniadau pellach a fydd yn berthnasol o 7 Mai 2026 ymlaen.

## Tâl yr Aelodau

- Bydd lefel cyflog yr Aelodau ar ddechrau'r Seithfed Senedd yn aros ar yr un lefel ag yn 2025/26, sef £76,380 ynghyd â chynnydd sy'n hafal i gyfradd mynegai ASHE Cymru a gyhoeddir ym mis Tachwedd 2025.
- Defnyddir mynegai ASHE Cymru i benderfynu ar y newidiadau blynyddol i gyflogau'r Aelodau (wedi'u haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn gan y newid yn ASHE (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Canolrif gros blynyddol cyflogeion amser llawn yng Nghymru) rhwng mis Ebrill a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol).
- Telir cyflog deiliad swydd ychwanegol ar gyfer y rolau hynny a restrir ym Mhennod 3 o'r Penderfyniad hwn, ac eithrio y bydd y cyflog ychwanegol ar gyfradd is ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau yn cael ei ddileu ar gyfer y Seithfed Senedd.
- Bydd y gyfradd y cyfeirir ati ar hyn o bryd fel y gyfradd Cadeiryddion Pwyllgorau (uwch) yn cael ei thalu i Aelodau'r Pwyllgor Busnes.
- Bydd cyfradd cyflog deiliad swydd ychwanegol yn codi bob blwyddyn yn unol ag ASHE.

## Cymorth ychwanegol

- Caiff yr Aelodau hawlio hyd at £350 fesul dibynnydd (plentyn o dan 16 oed neu oedolyn dibynnol) y mis (hyd at uchafswm o 3 dibynnydd) ar gyfer costau gofal yn

ystod wythnosau eistedd a chyfnodau pan fo toriad y tu allan i oriau gwaith arferol, fel y nodir yn y Rheolau Sefydlog, ac ar benwythnosau.

- Caiff yr Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu am ddibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda hwy yn ardal Caerdydd hawlio costau llety dros nos ychwanegol o hyd at £3,870 y flwyddyn ar gyfer y dibynnydd cyntaf, a hyd at £1,290 y flwyddyn fesul dibynnydd ychwanegol (hyd at uchafswm o 2 ddibynnydd).

## Gwariant ar lety preswyl

- Bydd dwy ardal o ran cymhwysedd ar gyfer llety dros nos ym Mhenderfyniad y Seithfed Senedd: ardal Fewnol ac ardal Allanol.
- Mae Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr etholaethau a ganlyn (Tabl 1) yn cael eu hystyried i fod yn breswylwyr yn yr ardal Fewnol neu'r ardal Allanol.

**Tabl 1**

| Ardal | Aelodau sydd â phrif breswylfa yn yr etholaethau hyn |
|---|---|
| Ardal Allanol | Bangor Conwy Môn<br>Clwyd<br>Fflint Wrecsam<br>Gwynedd Maldwyn<br>Ceredigion Penfro<br>Sir Gaerfyrddin<br>Gŵyr Abertawe<br>Brycheiniog Tawe Nedd |
| Ardal Fewnol | Afan Ogwr Rhondda<br>Pontypridd Cynon Merthyr<br>Blaenau Gwent Caerffili Rhymni<br>Sir Fynwy Torfaen<br>Casnewydd Islwyn<br>Caerdydd Penarth<br>Caerdydd Ffynnon Taf<br>Pen-y-bont Bro Morgannwg |

## Teithio

- Bydd y terfyn ar nifer y teithiau ar gyfer teithio o bryd i'w gilydd i ardal Caerdydd gan staff y mae eu gweithle arferol mewn etholaeth y tu allan i Gaerdydd yn cael ei ddileu.
- Bydd Aelodau yn gallu hawlio am 12 siwrnai unffordd ar gyfer eu partner a/neu ddibynyddion (plentyn o dan 18 oed neu oedolyn sy'n ddibynnydd).
- Cedwir y gofyniad i Aelod gyflwyno achos busnes ymlaen llaw ar gyfer taith ryngwladol, ond bydd y gofyniad i gyhoeddi adroddiad ar ôl y daith yn cael ei ddileu.

## Swyddfa Etholaethol ac Ymgysylltu

- Enw'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr bydd y gyllideb Swyddfa Etholaethol ac Ymgysylltu.
- Bydd yr egwyddorion ar swyddfeydd (paragraff 6A.1.3) yn cael eu disodli gan ffocws newydd ar yr egwyddorion sylfaenol ym Mhennod 1.
- Bydd pob Aelod sy'n sefydlu swyddfa newydd yn gallu hawlio costau cychwyn swyddfa hyd at £6,500 fesul Aelod yn y Seithfed Senedd.
- Bydd Aelodau sy'n dychwelyd sy'n cadw eu swyddfeydd presennol yn gallu hawlio costau Adnewyddu Swyddfa o hyd at £2,500 fesul Aelod. Rhaid gwneud unrhyw hawliad Adnewyddu Swyddfa cyn 1 Ebrill 2027.
- Bydd y ddarpariaeth bresennol sy'n ymwneud ag adnewyddu dodrefn swyddfa (paragraff 6.3.4) yn cael ei dileu.
- Bydd pob Aelod yn cael yr un lefel o gyllideb Swyddfa Etholaethol ac Ymgysylltu yn y Seithfed Senedd.
- Bydd y gyllideb Swyddfa Etholaethol ac Ymgysylltu yn aros ar y lefel bresennol, sef £27,430 (yn amodol ar fynegeio blynyddol) yn y Seithfed Senedd.
- Bydd y gofyniad i Gomisiwn y Senedd gymeradwyo penderfyniadau prydlesu swyddfeydd yr Aelodau ymlaen llaw ar gyfer y Seithfed Senedd yn cael ei ddisodli â ffocws newydd ar yr egwyddorion sylfaenol ym Mhennod 1.

- Bydd y terfyn ar y swm y gellir ei drosglwyddo rhwng y Gyllideb Swyddfa Etholaethol ac Ymgysylltu a'r Gyllideb Staffio neu i'r gwrthwyneb yn cynyddu i 50% o werth cyllideb y Swyddfa Etholaethol ac Ymgysylltu.

## Mesurau Iechyd a Diogelwch

- Caiff yr Aelodau hawlio ar gyfer mesurau iechyd a diogelwch gofynnol a nodwyd yn unol â'r darpariaethau isod.
- Bydd y gofyniad presennol ar yr Aelodau i geisio cyngor gan unigolyn cymwys a gymeradwywyd gan y Prif Weithredwr ar gyfer unrhyw fesurau iechyd a diogelwch a gymerir mewn perthynas â swyddfa yn cael ei ddileu. Caiff ei ddisodli gan ofyniad i geisio cyngor gan 'unigolyn cymwys' a (fel y diffinnir yng nghanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) ar gyfer unrhyw wariant iechyd a diogelwch mewn perthynas â swyddfa sy'n uwch na £250.
- Ystyr mesur iechyd a diogelwch yw unrhyw fesur y mae Aelod wedi'i nodi fel rhywbeth sy'n ofynnol o ganlyniad i asesiad risg iechyd a diogelwch a gynhaliwyd yn unol â chyfraith iechyd a diogelwch.

## Cymorth staffio ar gyfer Aelodau

- Bydd fframwaith cyflogau a graddfeydd teuluoedd swyddi newydd ar gyfer staff a gyflogir gan Aelodau a Grwpiau'r Senedd yn cael ei gyflwyno yn y Seithfed Senedd, yn seiliedig ar bedwar teulu swydd:
    - Cyfathrebu
    - Polisi ac Ymchwil
    - Gwaith achos
    - Rheoli Busnes a Gweinyddiaeth
- Bydd band cyflog yr Uwch-gynghorydd (gweler isod) yn berthnasol i deuluoedd swyddi Polisi ac Ymchwil a Chyfathrebu yn unig.
- Bydd yr ystodau cyflog canlynol yn Nhabl 2 yn berthnasol i staff a gyflogir gan Aelodau neu Arweinwyr Grŵp (at ddibenion Cymorth i Grwpiau'r Senedd) o dan y fframwaith newydd:

**Tabl 2**

| Lefel | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 |
|---|---|---|---|---|
| **Pennaeth Staff*** | £48,987 | £53,652 | £58,317 | £62,982 |
| **Uwch-gynghorydd** | £41,056 | £44,965 | £48,874 | £52,784 |
| **Band 1** | £37,583 | £41,163 | £44,743 | £48,322 |
| **Band 2** | £31,802 | £34,831 | £37,859 | £40,887 |
| **Band 3** | £25,211 | £28,812 | £32,414 | Amherthnasol |

* Bydd cyflog Pennaeth Staff dim ond yn daladwy i rôl Pennaeth Staff a allai gael ei gyflogi mewn Grŵp yn y Senedd.

- Bydd y cyflogau yn cael eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn gan y newid yn ASHE (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Canolrif gros blynyddol cyflogeion amser llawn yng Nghymru) rhwng mis Ebrill a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol.)
- Cynigir diogelwch cyflog am ddwy flynedd i aelodau o staff a gyflogir ar hyn o bryd ar uchafswm cyflog Band 3, ac sy'n parhau ar Fand 3 gyda'r un Aelod (neu Arweinydd Grŵp) yn cyflogi ar gyfer y Seithfed Senedd.
- Cedwir y fformiwla bresennol ar gyfer cyfrifo Cyllideb Staffio'r Aelodau.
- Bydd y Lwfans Gweithio Gartref yn cael ei ddileu o ddechrau'r Seithfed Senedd ymlaen.

## Cymorth i Grwpiau'r Senedd

- Yr enw am Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol fydd Cymorth i Grwpiau'r Senedd.
- Bydd Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn darparu cymorth i grwpiau gwleidyddol yn unig, fel y'u diffinnir yn y Rheolau Sefydlog, er mwyn cynorthwyo'r Aelodau sy'n perthyn i'r grwpiau hynny i gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau.
- Bydd y cymorth ychwanegol presennol i Aelodau unigol, neu grwpiau o Aelodau nad ydynt yn bodloni'r diffiniad presennol o grŵp gwleidyddol a nodir yn y Rheolau Sefydlog, yn cael ei ddileu.
- Diben Cymorth i Grwpiau'r Senedd fydd:

*Mae Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn rhoi adnoddau i Grwpiau fel y'u diffinnir yn y Rheolau Sefydlog ddarparu gweinyddiaeth a chydgysylltu canolog, cymorth ar gyfer gwaith craffu, ymchwil a datblygu polisïau sy'n ymwneud â dyletswyddau'r Aelodau, cymorth cyfathrebu, cymorth bugeiliol a llesiant, offer a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n ymwneud â staffio, gwasanaethau a gomisiynir yn allanol, yn ogystal â gweithredu swyddfa grŵp.*

- Bydd y cymorth yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla dosbarthu cyfradd fesul Aelod fel y nodir yn Nhabl 3, gan ostwng yn ôl maint y grŵp gwleidyddol, a grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn Llywodraeth Cymru yn derbyn cyfradd is fesul Aelod:

**Tabl 3**

| Haen | Cyfradd Fesul Aelod<br>Grŵp Anllywodraethol | Cyfradd Fesul Aelod<br>Grwpiau a gynrychiolir yn y Llywodraeth<br>(gostyngiad o 75% o gymharu â grwpiau anllywodraethol) |
|---|---|---|
| **5 Aelod cyntaf** | 100% | 25% |
| **6 - 39 o Aelodau** | 50% | 12.5% |
| **40+ o Aelodau** | 25% | 6.25% |

- Y gyfradd Fesul Aelod fydd £60,000. Bydd y gyfradd Fesul Aelod yn cael ei addasu o 1 Ebrill 2027 ymlaen a phob blwyddyn wedi hynny yn ôl y newid yn yr ASHE a gyhoeddwyd yn y mis Tachwedd blaenorol.

- Bydd cyllideb waelodol Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn seiliedig ar gronni'r tri pwynt cyflog uchaf o'r tri band uchaf o fewn Swyddfa'r Grŵp (Pennaeth Staff, Uwch-gynghorydd a Band 1) yn cael ei gosod ar gyfer grŵp a gynrychiolir yn y llywodraeth

- Bydd y Lwfans Gweithio Gartref ar gyfer staff grwpiau yn cael ei ddileu o ddechrau'r Seithfed Senedd ymlaen.


EVERYMAN
SIGNOR VALENTINO
EVERYMAN



BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD